



Mae'n anarferol iawn i gysyniad mawr, newydd ymddangos yn y gwyddorau cymdeithasol. Mae trawsieithu yn eithriad. Mae trawsieithu wedi datblygu i fod yn gysyniad mawr, newydd cyffrous, fel y mae'r llyfr hwn yn llwyddo i'w ddangos, ac ynddo'i hun yn ehangu ar y cysyniad amlddisgyblaethol hwn mewn ffyrdd pwysig.



Yr Athro Colin Baker

Trawsieithu yn y dosbarth

Cyfeirlyfr
cyflym i
addysgwyr



Awduron

Enlli Môn Thomas, Cadi Gwen Siôn, Bryn Jones, Siân Lloyd-Williams, Morgan Dafydd, Rhian Tomos, Lowri Mair Jones, Delyth Jones, Gwawr Maelor, Rhodri Evans a Gareth Caulfield.

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i Lywodraeth Cymru am ariannu'r gwaith fel rhan o weithgaredd y Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol (Collaborative Research Network): Cymraeg a Dwyieithrwydd. Mae hwn yn un o brosiectau Rhwydwaith Tystiolaeth Cydweithredol (Collaborative Evidence Network) COVID sy'n archwilio'r ymateb i'r aflonyddwch a grëwyd gan COVID ar agweddau o'r system addysg ac ar grwpiau penodol o ddysgwyr.

Diolch i'r holl ysgolion ac addysgwyr am eu cyfraniadau gwerthfawr at y gwaith.

Diolch yn arbennig i'r Dr Cen Williams am ei gefnogaeth diffuant i'r gwaith ac am ei barodrwydd i rannu adnoddau a'i arbenigedd yn y maes.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyhoeddwyd y llyfr hwn yn gyntaf yn 2022 gan Lywodraeth Cymru

Sut i gyfeirnoddi'r llyfr:

Thomas, E. M., Siôn, C. G., Jones, B., Dafydd, M., Lloyd-Williams, S. W., Tomos, Rh., Lowri Jones, L. M., Jones, D., Maelor, G., Evans, Rh. a Caulfield, G. (2022). Trawsieithu: Cyfeirlyfr cyflym i addysgwyr. Adnoddau Cydweithredol Cenedlaethol: Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor.

Rhif Llyfr Rhyngwladol/ISBN: XXX-XXX

Argraffiad cyntaf

© Enlli Môn Thomas, Cadi Gwen Siôn, Bryn Jones, Siân Lloyd-Williams, Morgan Dafydd, Rhian Tomos, Lowri Mair Jones, Delyth Jones, Gwawr Maelor, Rhodri Evans, a Gareth Caulfield, 2022

Cynnwys

Cyflwyniad i'r llyfr	4.
Rhagair	6.
Diffiniadau	7.
Beth ydy trawsieithu?	8.
Nodweddion trawsieithu	9.
Sut mae trawsieithu'n wahanol i gyfieithu?	12.
Diffinio trawsieithu	17.
Datblygiad y term 'trawsieithu'	20.
Pam trawsieithu?	26.
Trawsieith u a Cwricwlwm i Gymru	28.
Un iaith yn cyfoethogi'r llall	29.
Trawsieithu a sgaffaldio	31.
Trawsieithu a hyblygrwydd gwybyddol	33.
Sut mae trawsieithu?	36.
Gwahanol fodolau trawsieithu	37.
Trawsieithu: Strategaethau Dosbarth	42.
Darllen Pellach	47.
Llyfryddiaeth	48.



Cyflwyniad i'r llyfr



...to be at their most effective, teachers and teacher educators need to engage with research and enquiry – this means keeping up to date with the latest developments in their academic subject or subjects and with developments in the discipline of education

BERA/RSA, 2014

...teacher training programs must implement new theories of multilingualism which valorize the language practices of language-minoritized students

Singleton & Flynn, 2021, tud. 8



Mae maes addysg, fel unrhyw faes arall, yn faes sydd yn esblygu'n gyson ar raddfa gyflym iawn. Fel pob maes arall, crëir un ddamcaniaeth ar ôl y llall fel ymgais i esbonio ymddygiad neu gwestiwn penodol – e.e. Sut mae plentyn yn dysgu? Sut mae plentyn yn dysgu iaith? Beth mae plentyn ei angen er mwyn gallu meithrin sgiliau beirniadol da? Mae deall gwraidd damcaniaethau o'r fath, a'r berthynas rhwng y naill ddamcaniaeth â'r llall, yn bwysig os am fedru ystyried yr ymddygiad/cwestiwn dan sylw'n wybodus, ac os am fedru ystyried a thrafod y seiliau damcaniaethol hynny'n feirniadol.

Ym maes addysg, mae deall rhesymeg unrhyw ddull addysgol yn bwysig os yw'r dull hwnnw am gael ei gyflwyno'n effeithiol gyda disgyblion – Pam defnyddio dull addysgol penodol? Pam ddylai'r dull hwnnw lwyddo? Be wyddid am ymddygiad plentyn yn y cyd-destun hwn? Oes yna heriau i'r defnydd o'r dull hwn gyda disgyblion penodol? Pam? ayb. Heb ymwybyddiaeth

o'r damcaniaethau sy'n sail i'n dealltwriaeth o sut mae plant a phobl ifanc yn ymddwyn neu'n ymateb i wahanol ysgogiadau nid oes modd ystyried i ba raddau y bydd unrhyw dull penodol yn debygol o weithio a pham.

Ceisia'r llyfr hwn, felly, gyflwyno ychydig o gefndir i'r cysyniad o drawsieithu fel ymgais i arfogi athrawon gyda gwell dealltwriaeth o'r maes cymhleth hwn er mwyn gallu ystyried pam, sut, a phryd i ddefnyddio dulliau trawsieithu yn effeithiol mewn ysgolion yng Nghymru. Mae trawsieithu yn arfer cyffredin mewn ambell ysgol – weithiau yn fwriadol, wrth i'r athro gynllunio'n fwriadus i gynnwys dwy iaith neu fwy fel rhan o'r addysgu, a thro arall yn gwbl ddiarwybod i'r athro ac/neu'r disgybl, ond yn digwydd serch hynny. Bwriad y llyfr yw amlygu'r math o beth sy'n nodweddiadol o drawsieithu ac esbonio pam bod y dull hwn yn haeddu sylw.



Dylai pob plentyn gael cyfleoedd i ddysgu bod gan Gymru ddwy iaith swyddogol ac y caiff llawer o ieithoedd eraill eu siarad yn ein cymunedau. Mae cyfrifoldeb arnon ni i sicrhau y bydd plant yn meithrin agweddau cadarnhaol at ieithoedd gwahanol a'r bobl sy'n eu siarad. Dylai'r sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith gefnogi'r gwaith o feithrin gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.

Llywodraeth Cymru, 2022, tud. 21



Ceir yma, felly, gyflwyniad i 'Beth ydy trawsieithu?', 'Pam trawsieithu?' a 'Sut mae trawsieithu?' er mwyn cynorthwyo athrawon i benderfynu sut, pryd a pham defnyddio dulliau trawsieithu mewn cyd-destun dwyieithog, yn bennaf ble mae ymgais fwriadus i warchod iaith leiafrifol. Yn hynny o beth, anogir athrawon i herio rhai agweddau o'r term ac i lunio strategaethau trawsieithu sy'n gweddu i'w cyd-destun ieithyddol nhw yn yr ysgol ac sy'n ystyried yr hyn a wyddid am fanteision (ac anfanteision) cyfuno ieithoedd mewn addysg.

Ni fwriedir i'r llyfryn fod yn holl-gynhwysol o'r datblygiadau yn y maes eang hwn. Ceir rhestr ddarllen ddefnyddiol ar ddiwedd y llyfryn os oes rhywun am ddarllen yn ehangach yn y maes. Yr hyn a obeithir yw

bod yma gyflwyniad ddigonol i seiliau trawsieithu fel bod athrawon yn gallu mynd i'r afael â'r maes yn hyderus eu hunain, a chynllunio strategaethau addysgu'n bwrpasol.

Mae'r diffiniad o 'iaith gyntaf' ac 'ail iaith' yn gymhleth ac yn gallu bod yn amwys. Drwy gydol y llyfr, ceir cyfeiriadau at L1 a L2 gan mai dyna'r confensiwn o fewn y llyfryddiaeth ehangach. At bwrpas y llyfr hwn, defnyddir y naill label a'r llall fel a ganlyn:

L1 = iaith a ddefnyddir gartref

L2 = iaith sy'n cael ei dysgu rhyw dro ar ôl cychwyn dysgu iaith arall yn y cartref

Rhagair

Ddechrau'r wythdegau, yn y bar yn un o westai Llandudno y cafodd y term 'trawsieithu' ei fedyddio os nad ei eni hefyd. Roedd y diweddar Dafydd Whittall a minna, y ddau ohonan ni'n ddirprwyon mewn ysgolion uwchradd ar y pryd, newydd fod yn gwrando ar ddarlith gan un o ddarlithwyr y Brifysgol Agored. Pan es i at y bar, sylwodd Dafydd fod fy nodiada fi yn Gymraeg gydag ambell derm Saesneg ac mi aethon ni i drafod y broses; gwranddo ar y Saesneg, treulio'r wybodaeth a'i hatgynhyrchu'n sydyn iawn yn y Gymraeg. Rhywbeth yr oedd y ddau ohonan ni wedi'i wneud. Ond nid cyfieithu oedd yn digwydd, byddai'r darlithydd wedi fy hen adael ar ôl petawn wedi ceisio gwneud hynny. Doedd yr holl adnoddau ieithyddol ddim gen i i wneud hynny.

Wedyn trafod term addas i ddisgrifio'r broses a thrwy ystyried nifer o bosibiliadau, penderfynu ar y term 'trawsieithu'.

Ddechrau'r nawdegau, roeddwn i'n ymchwilio i ddulliau dysgu ac addysgu yn ysgolion uwchradd Gwynedd a Môn ac fe sylwais fod yr un broses yn union ar waith yn ein hysgolion. Gorfodaeth efallai mewn rhai achosion gan fod yr addysgu a'r dysgu yn Gymraeg ond bod y deunyddiau a'r adnoddau yn Saesneg. Ond roedd yn fwy bwriadus hefyd mewn rhai sefyllfaoedd e.e. athro hanes gyda dosbarth o ddysgwyr da yn rhoi un darn o dystiolaeth yn Gymraeg a'r tasgau / cwestiynau yn Saesneg; y darn arall o dystiolaeth yn yr un wers yn Saesneg a'r ymateb yn Gymraeg.

Dyma sylweddoli bod y sgil yma'n hynod werthfawr, ac o gynllunio'r defnydd ohoni yn ofalus, ei bod yn fodd i gryfhau'r ddwy iaith. Sylweddoli bod lle i ddatblygu'r sgil ym mhob sector addysg yng Nghymru gan y gallai ddatblygu hyfedredd a hyder yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dyma fynd ati wedyn i roi llawer mwy o sylw i 'drawsieithu' trwy arsylwi ar (i) y ffordd yr oedd yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol ysgolion cynradd ac uwchradd, a (ii) ei addasrwydd yn yr ysgolion hynny oedd yn derbyn trochwyr hwyr yn 11 oed. Yna mynd ati i geisio amlinellu'r camau y gellid eu cymryd i ddatblygu'r sgil hon yn y sectorau addysg bellach ac uwch tra'n ceisio gwerthu'r syniad i ddarpar athrawon, athrawon uwchradd a darlithwyr.

Yn anffodus, y drefn yn y byd addysg cyfrwng Cymraeg bryd hynny oedd gwahanu'r ddwy iaith o fewn yr un wers a chofiaf fod aelodau o'r Arolygiaeth yn pwysleisio hyn. Doedd dim gobaith i drawsieithu lwyddo fel sgil i'w datblygu yn yr ystafell ddosbarth! Bellach, gyda'r pwyslais ar 'iaith' a dwyieithrwydd yn hytrach na Saesneg a Chymraeg yn Cwricwlwm i Gymru, mae'r amser yn addas. Y nod yw cryfhau a defnyddio'r ddwy iaith i lefel uchel i ddatblygu disgyblion cytbwys a hyderus ddwyieithog.

Yr hyn sy'n eironig yw bod 'trawsieithu' neu 'translanguaging' wedi datblygu llawer iawn yn rhyngwladol, diolch i'r sylw a roddodd Ofelia Garcia a'i chydweithwyr iddo, er bod y diffiniad ohono a'r cysyniad wedi ei ehangu a'i ymestyn. Mae hi'n sôn

amdano fel dull i ddatblygu'r ail iaith o'r dechreuad bron, ond strategaeth ar gyfer plant sydd â gafael eithaf dda ar un iaith a gafael llafar eithaf da ar y llall oedd fy nehongliad i o drawsieithu. Roedd hefyd yn strategaeth i gadw ac i ddatblygu dwyieithrwydd yn hytrach na rhoi ail iaith i blant yn y lle cyntaf.

Diolch i'r awduron am ailymweld â'r maes a phob llwyddiant i'r llyfr.

Dr Cen Williams



Diffiniadau

Trawsieithu
"Translanguaging"

Arfer addysgeg yw trawsieithu sy'n golygu symud rhwng y ddwy iaith ar gyfer mewnbwn ac allbwn yn yr un gweithgaredd. Mae'r dysgwr yn derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yn gweithio gyda'r wybodaeth honno mewn iaith arall.

Cwricwlwm i Gymru

Cyfringu
"Mediation"

[C]yfathrebu ystyr o un person i berson arall o fewn iaith (aralleirio, crynhoi) neu o un iaith i iaith arall (cyfieithu, dehongli). Mae'r dysgwr yn cynorthwyo eraill i gyfathrebu gyda'i gilydd trwy rannu, esbonio neu gyfieithu gwybodaeth neu syniadau.

Cwricwlwm i Gymru

Dwyieithrwydd
"Bilingualism"

The ability of communities or persons to meet the communicative requirements of themselves and their society in normal daily life in two or more languages

Mohanty, 2019, tud. 17

Sgiliau uwchwybyddol
"Executive function skills"

A multidimensional behavioural concept covering a range of assumed higher order cortical functions, such as goal-directed behaviour, attentional control, temporal organisation and planning

Lehto, Juujärvi, Kooistra & Pulkkinen, 2003, tud. 59

Iaith leiafrifol
"Minority language"

Languages that are both traditionally used within a given territory of a state by nationals of that state who form a group numerically smaller than the rest of the state's population and different from the official language(s) of that state

Branchadell, 2011, tud. 97

Cyfnwid cod
'Code-switching'

Going from one language to the other in mid-speech when both speakers know the same languages

Cook, 2000, tud. 83

Sgaffaldio
"Scaffolding"

Temporary support supplied by a teacher or knowledgeable person to help students solve problems that they are unable to solve independently

Sun, Ruokamo, Siklander, Li & Devlin, 2021, tud. 2

Metaieithyddiaeth
"metalingusitics"

The ability to think explicitly about language; to manipulate structural features of language such as phonemes (speech sounds), words, and sentences; and to focus on the forms of language separately from the meanings

Chaney, 1992, tud. 485

Beth ydy trawsieithu?



...a pedagogical practice that alternates the use of Welsh and English for input and output in the same lesson. The idea is to get information in one language and to work with that information in the other language

Cenoz & Gorter, 2017, tud. 311

Arfer addysgeg yw trawsieithu sy'n golygu symud rhwng dwy iaith ar gyfer mewnbyn ac allbwn yn yr un gweithgaredd. Mae'r dysgwr yn derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yn gweithio gyda'r wybodaeth honno mewn iaith arall

Cwricwlwm i Gymru

Translanguaging is the process of making meaning, shaping experiences, gaining understanding and knowledge through the use of two languages

Baker, 2011, tud. 288

translanguaging refers to new language exchanges among people with different histories, and releases histories and understandings that had been buried within fixed language identities constrained by nation-states

García Wel, 2014, dyfynwyd o Creese, Blackledge & Hu (2018), tud. 842



Nodweddion trawsieithu

Mae trawsieithu ymysg poblogaethau dwyieithog mor naturiol ag anadlu. Ystyriwch y sefyllfa hon:

Sefyllfa 1: Golchi dillad

Sbia, mae o'n deud bo ti angen rhoi hwn i mewn efo dillad yr un lliw - yli 'wash with similar colours' - felly rho hwn i mewn efo gweddill dillad pèl-droed ella, ia, a wedyn elli di roi'r gweddill efo'i gilydd mewn golch arall.

O, aros, funud, ti angen rhoi o tu wyneb allan hefyd - sbia: 'wash inside out'. Dyna mae hynna yn feddwl de. Fel bod o ddim yn colli lliw ella, ia? Dwnim. Ond na fo - na i roi o tu wyneb allan. O, ia - sbia: mae o'n d'eud yn famma hefyd 'Iron on reverse', so be 'di hynny, smwddio fo tu wyneb allan hefyd ia? Ta smwddio'r cefn? Na - 'sa hynny ddim yn gwneud sense na fydda. Tu wynab allan debyg, ia, rhag ofn i'r rhif ddod i ffwrdd ma siŵr, ia? Ma raid bod o'n gallu mynd i edrych yn flêr yn hawdd- sbia: 'Wash as wool cycle' - mae hynna'n golygu bod o'n reit sensitif dydi.

Be di 'wool cycle'?

Cycle ydi'r math o olch ti'n dewis ar y peiriant - sbia: bob un o'r rhain ar y dial yn famma. Felly mae 'wool cycle' efo dŵr cynnes ac yn cycle reit hir, 'brilliant white' yn defnyddio dŵr berwedig ac yn cymryd oriau, tra mae 'quick wash' yn gyflym.


Dyma un enghraifft o drawsieithu ar waith. Yma, mae'r sgwrs yn digwydd yn Gymraeg, ond mae'r wybodaeth sy'n bwydo'r sgwrs yn Saesneg. Ac mae'r defnydd o'r wybodaeth yn Saesneg yn plethu'n naturiol i mewn i'r sgwrs Gymraeg heb amharu ar y Gymraeg.

Mae'r math yma o beth yn rhywbeth sy'n digwydd yn gyson yn ein bywydau bob dydd. Os nad wrth ddilyn cyfarwyddiadau golchi dillad, mae o'n digwydd, er enghraifft, wrth i ni sgwrsio mewn un iaith am raglen deledu, ffilm, neu lyfr a grëwyd mewn iaith arall. Mae'n digwydd wrth i ni drafod y newyddion; wrth wyllo clipiau Tik Tok; wrth ddarllen cyfarwyddiadau; wrth siopa ar-lein. Mae'n digwydd mewn unrhyw sefyllfa pan mae rhywun yn gwneud rhywbeth mewn un iaith sy'n cael ei fwydo/ei gefnogi/ei sgaffaldio gan iaith arall.

Yn yr achos hwn, mae'r 'gwneud' yn llafar (sgwrsio yn Gymraeg) ond mae'r wybodaeth sy'n bwydo'r sgwrs yn ysgrifenedig ac mewn Saesneg.



Sefyllfa 1: Trawsieithu naturiol ar draws ysgrifen a sgwrs



Mewn achosion eraill, mae'r 'gwneud' a'r bwydo yn gallu digwydd yn yr un 'modd':

Ystyriwch y sefyllfa hon:

Sefyllfa 2: Sgwrs ffôn

Galwr: Good morning. This is Kevin from the Kitchen Store. Am I speaking to Mrs Williams?

Atebwr: No, sorry, she's busy at the moment

Galwr: Ah, it's about the delivery of the kitchen. We need to confirm if the order is correct and when to deliver

Atebwr: Mam! Mae na rhywun ar y ffon o'r lle cegin - isio gwybod os ti'n hapus efo'r ordor a phryd gawn nhw ddeliferio

Mam: Ond da ni ddim yn barod eto! Da ni angen trefnu'r trydanwr a'r teiliwr a mae'r ordor dal yn anghywir. Da ni angen drysau gwahanol i'r rhai na'thon ni ddewis yn wreiddiol - fydda ni ddim mewn siâp tan ar ôl hanner tymor ond 'sa hynny'n gweithio i ni


Atebwr: Ok, she says she's happy to have them delivered after 12 February but she wanted the cream wooden doors instead of the light grey - I think she selected the ones she wanted last time she was in the shop. They are the ones with the wood grain effect.

Galwr: Yes, we can confirm that we've changed the order to the cream wooden doors and I'll just make a note now that you need the delivery to happen after 12 February



Yn y sefyllfa hon, llafar yn unig ydi'r mewnbwn a'r allbwn, ond yr un yw'r dasg: mae rhywun yn gwneud rhywbeth mewn un iaith ond yn derbyn cyfarwyddyd/ gwybodaeth mewn iaith arall.

Sefyllfa 2: Trawsieithu naturiol ar lafar:



Yr hyn sydd yn gyffredin ar draws y ddwy sefyllfa ydi bod yr ymennydd yn derbyn mewnbwn mewn un iaith, yn ymateb i'r mewnbwn hwnnw mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, cyn cynhyrchu allbwn mewn iaith arall.

A dyma , yn y bôn, ydy trawsieithu. Mae'r naill sefyllfa a'r llall yn nodweddiadol o fywyd unigolion dwyieithog ac yn ymddygiad sy'n gallu arwain at lu o fanteision yn y pen draw, fel ag amlygir yn y llyfr hwn, yn cynnwys:

Manteision gwybyddol	Hyblygrwydd rheoli'r meddwl, sy'n deillio o ymarfer sgiliau dwyieithog
Manteision mynegiannol	Sgiliau creadigol, sy'n deillio o fod yn ddwyieithog
Manteision addysgol	Dealltwriaeth dda o'r gwaith a'r gallu i egluro cysyniadau yn gliriach
Manteision ieithyddol	Cyfle i ddatblygu sgiliau llafar/darllen/ysgrifennu yn y ddwy iaith; hybu rhuglder yn y ddwy iaith
Manteision addysgol amgen	Gallu pontio rhwng yr ysgol a'r cartref; pontio rhwng yr ysgol a'r gymuned yn ehangach
Manteision cymdeithasol	Dealltwriaeth o wahaniaethau diwylliannol; goddefgarwch
Manteision iechyd a lles	Magu hunan-hyder



A multilingual speaker uses different languages either in isolation or mixed, for different purposes instead of using one language for all possible situations.

Cenoz & Gorter (2021), tud. 15



Sut mae trawsieithu'n wahanol i gyfieithu?

Cyfeirnod 1: Cyfieithu

Mae cyfieithu yn wahanol i drawsieithu.
Mae nodweddion cyfieithu yn cynnwys y canlynol:



Trosi o'r naill iaith i'r llall, mynegi ystyr mewn iaith arall. Mewn cyfieithu da, mae'n ofynnol cael y tri pheth canlynol o leiaf: (a) Cadw synnwyr y gwreiddiol. (b) Dal, hyd y gellir, ei anian a'i ysbryd. (c) Meddu perffaith feistrolaeth ar deithi'r iaith y cyfieithir iddi fel y bo'r cyfieithiad yn darllen fel gwaith gwreiddiol



Converting from one language to another, expressing meaning in another language. Good translation requires at least the three following features: (a) Retaining the original meaning. (b) Capturing, insofar as is possible, its essence and spirit. (c) Having complete mastery of the way the target language works, so that the translation reads as an original piece of work.

Jones, 1972, tud. 40

Mae trawsieithu a chyfieithu fel ei gilydd yn galluogi unigolion i gyfleu ystyr a dderbynnir mewn un iaith yn effeithiol mewn iaith arall. Maent yn ymfyn sgiliau dadansoddi da, dealltwriaeth dda o ystyr geiriau, ac adnabyddiaeth gadarn o batrymau cystrawennol dilys yn naill iaith a'r llall.

Wrth gyfieithu, mae'r ffocws yn aml ar ail-gyfleu yr union gynnwys yn ei gyfanrwydd (e.e. mewn dogfen ffurfiol) neu wedi ei grynhai (e.e. wrth droi neges gyflym i iaith

arall), heb wyro oddi ar y cynnwys hwnnw. Gall y pwrpas fod yn un ymarferol – e.e. cyfieithu deunyddiau i gynyddu capasiti i weithio yn yr ail iaith (Lewis et al., 2013) – neu yn un egalitaraidd, ble bo rhywun yn cyfieithu er mwyn sicrhau bod pawb wedi eu cynnwys mewn sgwrs, ayb. Wrth drawsieithu, ar y llaw arall, mae'r ffocws yn llai ar ail-gyflwyno yr union gynnwys ac yn fwy ar ddefnyddio'r cynnwys i fwydo gweithgaredd/ ymddygiad/ trafodaeth yn ehangach.


Cyfieithu ffurfiol	Cyfieithu anffurfiol	Trawsieithu
Ffocws ar gadw mor agos â phosib i'r gwreiddiol o ran synnwyr, anian ac ysbryd	Ffocws ar gyfleu ystyr cyffredinol y mewnbwn	Ffocws ar ddefnyddio'r wybodaeth o'r mewnbwn ym mha bynnag ffordd sydd ei angen i gefnogi allbwn yn yr iaith arall

Yn Sefyllfa 2 uchod, gellid adnabod enghreifftiau amlwg o gyfieithu a thrawsieithu, e.e.:

Cyfieithu	Trawsieithu
<p>Galwr: Ah, it's about the delivery of the kitchen. We need to confirm if the order is correct and when to deliver</p> <p>Atebwr: Mam! Mae na rhywun ar y ffon o'r lle cegin – isio gwybod os ti'n hapus efo'r ordor a pryd gawn nhw ddeliferio</p>	<p>Mam: Ond da ni ddim yn barod eto! Da ni angen trefnu'r trydanwr a'r teiliwr a mae'r ordor dal yn anghywir. Da ni angen drysau gwahanol i'r rhai na'thon ni ddewis yn wreiddiol – fydda ni ddim mewn siâp tan ar ôl hanner tymor ond 'sa hynny'n gweithio i ni</p> <p>Atebwr: Ok, she says she's happy to have them delivered after 12 February, but she wanted the cream wooden doors instead of the light grey – I think she selected the ones she wanted last time she was in the shop. They are the ones with the wood grain effect.</p>

Gall cyfieithu ddigwydd o fewn y broses ehangach o drawsieithu, fel yn Sefyllfa 2 uchod. Yn yr un modd, gall unigolion drawsieithu pan yn y broses o gyfieithu, drwy ystyried gwybodaeth ehangach na'r pwt o iaith sydd angen ei gyfieithu, fel yn y cyfeiriadau at y cyfarwyddiadau ar y label dillad yn Sefyllfa 1, e.e.:

Cyfieithu	Trawsieithu
ti angen rhoi o tu wyneb allan hefyd – sb̄ia: 'wash inside out'	'Wash as wool cycle' – mae hynā'n golygu bod o'n reit sensitif dydi."



Mae'r naill broses a'r llall – cyfieithu a thrawsieithu – yn brosesau pwysig sy'n annog sgiliau ieithyddol, gwybyddol, ac addysgol da. Ond mae pwrpas y naill a'r llall yn wahanol, ac felly mae'n bwysig dewis a dethol y defnydd o'r naill neu'r llall yn ofalus – e.e.:

	Datblygu sgiliau iaith	Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth
Cyfieithu (ffurfiol)	Os oes gan y disgyblion afael dda ar y ddwy iaith, byddai gosod ymarfer cyfieithu (ffurfiol) yn fodd o gryfhau eu sgiliau ieithyddol gan ei fod yn annog ystyriaeth o sut mae gwahanol ffurfiau ieithyddol yn cyfleu ystyr mewn gwahanol ieithoedd.	Mae cyfieithu deunyddiau yn caniatáu mynediad at wybodaeth bynciol yn yr iaith darged. Gall gosod ymarfer cyfieithu ffurfiol i ddisgyblion olygu bod rhaid sicrhau dealltwriaeth o'r ystyr wreiddiol wrth geisio trosi'r union ystyr i iaith arall.
Cyfieithu (anffurfiol)	Os oes plentyn yn gryfach mewn un iaith na'r llall, byddai gosod tasg i drosi ystyr o un iaith i iaith arall yn ddefnyddiol i ddatblygu geirfa a magu ffurfiau gwahanol i gyfleu yr un ystyr yn yr iaith wannaf.	Wrth gydweithio ar ddarn o waith, gall disgyblion gyfieithu darnau i'w gilydd er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r cynnwys.
Trawsieithu	Wrth drafod ystyr darn at y pwrpas o ehangu ar y darn hwnnw yn yr iaith arall, gall hyn arwain at drafodaeth ynglŷn a sut mae cyfleu'r wybodaeth yn ieithyddol ystyrion mewn iaith arall a chyfoethogi eu sgiliau iaith yn y broses.	Wrth ystyried gwybodaeth sydd wedi ei dderbyn mewn un iaith er mwyn cynhyrchu rhywbeth ynghylch cynnwys y wybodaeth honno mewn iaith arall, mae'r angen i (i) fewnoli'r wybodaeth wreiddiol, (ii) symud yn ôl ac ymlaen rhwng y ddwy iaith er mwyn sicrhau dealltwriaeth, (iii) addasu ac ehangu gwybodaeth, a (iv) ystyried hyd a lled y wybodaeth er mwyn gallu creu allbwn yr un mor wybodus yn cyfoethogi dealltwriaeth unigolyn o'r pwnc.



Cyfieithu deunyddiau addysgol

Os yn cyfieithu at bwrpas cynyddu deunyddiau, rhaid ystyried a yw cyfieithu gair-am-air yn briodol am y rhesymau canlynol:

- ▶ Mae cyfieithu ffurfiol yn grefft.
- ▶ Nid oes geiriau cyfatebol o ran ystyr ym mhob iaith.
- ▶ Nid yw ffurfiau cystrawennol sy'n bodoli mewn rhai ieithoedd ar gael neu'n briodol mewn ieithoedd eraill.
- ▶ Mae cyfieithu yn broses sy'n cymryd amser.
- ▶ Mae'n hawdd colli ystyr a chymhlethu'r darllynydd.
- ▶ Gall gor-ddibyniaeth ar gyfieithu mewn rhai cyd-destunau (e.e. wrth baratoi gwaith i'w gyflawni gartref yn ystod cyfnodau dysgu o bell) olygu bod modd i'r disgyblion gwblhau a thrafod y gwaith yn uniaith Saesneg.



Bocs gwybodaeth 2: Dysgu o bell

Mewn ymchwiliad gan Thomas et al. (2021) archwiliwyd profiadau rhieni ac athrawon o addysgu o bell yn ystod cyfnodau clo y pandemig.

Dau batrwm amlwg a nodwyd ymysg y data oedd:

- ▶ bod nifer o athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i osod gwaith yn uniaith Gymraeg, fel bo'r angen, yn dilyn polisi'r ysgol, a
- ▶ bod nifer helaeth o athrawon yn nodi eu bod yn cyfieithu popeth oedd yn cael ei rannu.

Drwy osod y gwaith yn uniaith Gymraeg, nid oedd modd i rai rhieni gynorthwyo'r plant yn uniongyrchol gyda'r gwaith, er bod yma gyfle i drawsieithu'n naturiol wrth i'r plentyn geisio esbonio i'w rhiant be oedd natur y gwaith. Nododd rhai rhieni eu bod,

yn hytrach, wedi chwilota am ddeunydd tebyg yn Saesneg a mynd ati i gwblhau'r gwaith hwnnw yn ei le gyda'u plentyn.

Drwy gyflwyno'r gwaith yn ddwyieithog i'r plentyn/rhiant, roedd nifer o rieni yn cydnabod eu bod yn hepgor y Gymraeg yn gyfan gwbl ac yn cynorthwyo eu plentyn i gwblhau'r gwaith yn Saesneg. Roedd y cyfieithu, felly, wedi bod yn ofer mewn nifer o achosion.

Un ffordd o atal y gallu i osgoi'r Gymraeg yn gyfan gwbl mewn sefyllfa o'r fath fyddai i osod y gwaith o fewn fframwaith trawsieithu – cynnwys deunydd darllen Saesneg y gellid ei ddefnyddio fel testun trafod gyda'r rhiant, paratoi taflen geirfa dwyieithog i gynorthwyo gyda'r allbwn yn Gymraeg, cynnwys crynodeb byr o fwriad a deilliannau dysgu'r dasg yn ddwyieithog i'r rhiant, ayb.

Bocs Gwybodaeth 3: Heriau cyfieithu gair-am-air

Addasiad o Williams (2003) (tud. 43). Ystyriwch y frawddeg ganlynol:

There is a feeling that the manager becomes involved with you

Pan yn cyfieithu gair-am-air, mae'n debygol iawn y bydd rhywun yn mynd at eiriadur ar rhyw bwynt. Yn yr achos hwn, tybir y byddai rhywun efallai'n chwilio am dermau Cymraeg, er enghraifft, i gyfleu 'involved'.

Os yn defnyddio Cysgair, dyma'r hyn a gynigir ar gyfer 'involve':

Golygu (berf) - 'to mean'

Ymglymu (berf) - 'to tie or to bind'

Mae'n amlwg nad yw'r 'golygu' yn berthnasol yng nghyd-destun y frawddeg uchod:

Mae teimlad bod y rheolwr yn golygu gyda chi

'There is a feeling that the manager means with you'

Er bod ystyr y ferf 'ymglymu' yn agosach at ystyr y frawddeg wreiddiol, nid yw hwn, chwaith, yn gweithio:

Mae teimlad bod y rheolwr yn ymglymu gyda chi

'There is a feeling that the manager ties/binds with you'

Felly, yn hytrach na chyfieithu gair-am-air drwy ddefnyddio'r geiriadur, gall arall-eirio'r testun gyfleu'r ystyr yn fwy eglur:

Mae teimlad bod y rheolwr yn rhyngweithio gyda chi (interacts with you)

Mae teimlad bod y rheolwr yn cysylltu â chi (connects with you)

Mae teimlad bod y rheolwr yn dangos diddordeb ynoch chi (shows interest)

Mae teimlad bod y rheolwr yn parchu'ch barn chi (respects your views)

Dyma a olygir gan 'gyfieithu anffurfiol' uchod. Mae aralleirio a newid yr ystyr fymryn yn caniatáu i'r darlennydd/gwrandawr ddeall ystyr y frawddeg. Ond mae'r broses o fynd yn ôl ac ymlaen rhwng y ddwy iaith i geisio dod at y fersiwn derfynol yn gallu cymryd amser!

Fodd bynnag, wrth osod gwaith darllen/ysgrifennu i ddisgyblion, ble rhaid mewnnoli gwybodaeth o un iaith, ei ystyried neu ei drafod er mwyn ei ail-gyflwyno ar ffurf wahanol mewn iaith arall, gellir manteisio ar y math hwn o broses (cymharu a chyferbynnu'r ddwy iaith at y pwrpas o gyfleu ystyr yn effeithiol) er mwyn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o eirfa, cystrawen a seiniau'r naill iaith a'r llall.



Diffinio trawsieithu

Mae'r diffiniad o drawsieithu wedi newid dros y blynyddoedd. Mae diffiniad triphlyg Baker & Wright (2021) yn crisialu'r gwahaniaeth o ran sut mae rhywun yn diffinio'r term:


Diffiniad 1	"In its original conceptualization, [translanguaging] refers to the practice in which bilinguals receive information in one language and then use or apply it in the other language" ¹ .
Diffiniad 2	"In its expanded sense, it refers to the natural and normal ways bilinguals mix and use their languages in their everyday lives without adherence to the boundaries of 'named' languages to make sense of their bilingual worlds" ¹ .
Diffiniad 3	"In teaching, the term refers to pedagogical practices that use bilingualism as a resource rather than ignore it or perceive it as a problem" ¹ .

¹Baker & Wright, 2021, tud. 464

Yn ôl y diffiniadau hyn, mae trawsieithu yn ymarfer neu'n ymddygiad sy'n digwydd pan fo rhywun yn delio â dwy iaith. Ond mae trawsieithu'n fwy na hynny. Er mwyn cynhyrchu ymateb, darn o waith, allbwn - beth bynnag ydi'r gofyn - mewn iaith sy'n wahanol i iaith y mewnbwn, rhaid bod â'r sgiliau gwybyddol i fedru mewnnoli'r

wybodaeth, dewis a dethol o'r wybodaeth honno, ac ail-lunio'r wybodaeth yn effeithiol, er mwyn gallu llunio'r allbwn priodol yn y pen draw. Mae i drawsieithu, felly, elfen wybyddol gref:

Bocs gwybodaeth 4: Model trawsieithu



Bocs Gwybodaeth 5: Rhain sgiliau gwybyddol trawsieithu – e.e.

- Talu sylw
- Dethol a rheoli sylw
- Cymharu a chyferbynnu
- Y cof
- Adalw o'r cof
- Rhesymu

Gyda'i gilydd, gelwir y rhain yn sgiliau uwchwybyddol

Gellid felly ychwanegu pedwerydd diffiniad i'r pair:

Diffiniad 1	"In its original conceptualization, [translanguaging] refers to the practice in which bilinguals receive information in one language and then use or apply it in the other language." ¹
Diffiniad 2	"In its expanded sense, it refers to the natural and normal ways bilinguals mix and use their languages in their everyday lives without adherence to the boundaries of 'named' languages to make sense of their bilingual worlds." ¹
Diffiniad 3	"In teaching, the term refers to pedagogical practices that use bilingualism as a resource rather than ignore it or perceive it as a problem." ¹
Diffiniad 4	Proses wybyddol sy'n caniatáu unigolyn i fewnoli gwybodaeth o un iaith er mwyn gallu defnyddio'r wybodaeth honno i fwydo ei allbwn mewn iaith arall.



Felly mae modd ystyried bod trawsieithu yn cyflawni nifer o bwrpasau:

1. ymarfer addysgol
2. ymddygiad cyfathrebol
3. adnodd cynorthwyol
4. gweithgaredd wybyddol

Bocs Gwybodaeth 6: Ontoleg y term

Mae'r rhagddodiad trans- (yn Saesneg) yn translanguaging yn golygu 'ar draws' ('across'), fel y mae traws- yn trawsieithu yn y Gymraeg. Dyma wraidd y term yn ei ystyr wreiddiol, fel a nodir yn y diffiniad cyntaf yn y tabl. Ond yn ôl Cenoz & Gorter (2021, tud. 12), gall trans- hefyd olygu 'tu hwnt' ('beyond'), ac mai dyna'r ystyr sydd yn sail i'r ail ddiffiniad yn y tabl.



Un cam pwysig, os am annog trawsieithu yn y dosbarth, yw eich bod yn ystyried y ffactorau gwleidyddol, ieithyddol, seicolegol a chymdeithasol sy'n berthnasol i'r ieithoedd dan sylw fel bod y dull a ddefnyddir yn gweddu i'ch cyd-destun chi:

Gwleidyddol	Statws iaith
Ieithyddol	Sgiliau iaith y disgyblion
Seicolegol	Agweddau tuag at un iaith neu'r llall
Cymdeithasol	Sefyllfa gyfredol yr iaith a'i dominyddiaeth o fewn grŵp

Gellid hefyd ystyried pwrpas a nod trawsieithu yn y dosbarth yng nghyd-destun yr heriau i addysgu iaith leiafrifol, ac addasu'r dull a ddefnyddir yn ôl yr ystyriaethau hynny. Er enghraifft:

Beth yw'r heriau?	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Prinder adnoddau cyfoes yn yr iaith leiafrifol ▶ Gwarchod iaith leiafrifol tra'n gwneud defnydd o iaith fwyafrifol ▶ Diffyg gallu i fynegi eich hun yn gyflawn mewn un iaith
Beth yw'r pwrpas?	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Cyflwyno disgyblion i adnoddau eang i gefnogi eu dysgu ▶ Cynyddu dealltwriaeth trwy annog dadansoddiad ddofn o'r cynnwys ▶ Sgaffaldio'r iaith wannaf drwy gefnogaeth yr iaith gryfaf
Beth yw'r nod?	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Datblygu sgiliau dwyieithog ▶ Cynyddu hyder o fewn y pwnc ▶ Cynyddu hyder i drafod y pwnc mewn unrhyw iaith

The importance of developing the minority language is at the heart of translanguaging
Cenoz & Gorter (2021), tud. 6

Datblygiad y term 'trawsieithu'



Translanguaging is nowadays an umbrella term that embraces a wide variety of theoretical and practical proposals

Cenoz & Gorter, 2020, tud. 2

(i) Gwraidd y term

Mae gwreiddiau ymchwil trawsieithu i'w canfod mewn addysg ddwyieithog yng Nghymru ac yn benodol yng ngwaith Cen Williams (1994). Yn ei ystyr wreiddiol, mae trawsieithu yn digwydd ble mae mewnbwn gwers (sgiliau derbyniol/goddefol, e.e., deunyddiau darllen, sgwrs yr athro) a'r allbwn (y sgiliau ieithyddol cynhyrchiol/gweithredol, e.e., gwaith ysgrifenedig, trafodaeth grŵp) wedi'u hamrywio'n fwriadol a threfnus rhwng y gwahanol ieithoedd (García, 2009) (gweler Diffiniad 1 a 3 uchod).

Mewnbwn

Iaith
1



Allbwn

Iaith
2

Mae gwreiddiau trawsieithu yn gadarn fel **dull addysgol**, yn enwedig mewn cyd-destunau **iaith leiafrifol**, er bod defnydd o'r term bellach wedi ei fabwysiadu i gyfeirio hefyd at ymddygiad ieithyddol cymhleth ac unigryw y siaradwr dwy- ac amlieithog.

Mae trawsieithu fel dull addysgol yn ceisio mynd i'r afael â'r ffaith bod disgyblion sydd yn derbyn eu haddysg yn Gymraeg (neu mewn unrhyw iaith arall) yn debygol o chwilio am wybodaeth addysgol drwy amryfal ffyrdd (ac o amryfal fath) yn Saesneg (neu mewn iaith arall megis Cymraeg), gan hefyd gydnabod bod hepgor iaith

gyntaf plentyn yn fwy niweidiol i ddatblygiad ei ail iaith na chaniatáu i'r plentyn fanteisio ar ei sgiliau yn y ddwy iaith. Mae'r sgiliau gwybyddol sydd yn cael eu sbarduno wrth ddefnyddio dwy iaith yn gydamserol yn wahanol i'r sgiliau sydd yn cael eu sbarduno wrth ddarllen, clywed, siarad a phrosesu un iaith ac yn meithrin mwy o sgiliau uwchwybyddol megis rheoli gwybodaeth, dewis a dethol gwybodaeth, cymhwyso a chydweddu gwybodaeth, etc., sef sgiliau allweddol sydd yn aml ar eu gorau ymysg siaradwyr mwy nag un iaith (gweler Diffiniad 4 uchod a Bocs Gwybodaeth 9).

(ii) Esblygiad y term

Daeth y defnydd o'r term trawsieithu i boblogrwydd byd-eang drwy waith Colin Baker ac Ofelia García. Tra bod y cysyniad gwreiddiol, a'r term ei hun, wedi ei fathu yma yng Nghymru ar gyfer sefyllfa iaith leiafrifol, mireiniwyd ystyr y term i fod yn berthnasol i sefyllfa ddwyieithog tra wahanol, sef y sefyllfa ddwyieithog yn Efrog Newydd. Symudwyd y ffocws oddi wrth addysgeg ffurfiol tuag at y defnydd anffurfiol o iaith ymysg siaradwyr dwyieithog (gweler Diffiniad 2 uchod).



Translanguaging is the deployment of a speaker's full linguistic repertoire without regard for watchful adherence to the socially and politically defined boundaries of named (and usually national and state) languages

Otheguy, García & Reid, 2015, tud. 283

Sefyllfa yng Nghymru	Sefyllfa yn Efrog Newydd
<ul style="list-style-type: none"> ▶ Saesneg a Chymraeg yn ieithoedd swyddogol ▶ Canran cymharol fechan o fewnfudo, ar ei fwyaf yn y dinasoedd ▶ Y Gymraeg yn iaith leiafrifol sy'n cael ei chefnogi drwy'r system addysg ▶ Nod addysg ddwyieithog yw gwarchod y Gymraeg a datblygu siaradwyr dwyieithog rhugl 	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Saesneg yn iaith swyddogol ▶ Nifer helaeth o fewnfudwyr yn siarad Sbaeneg, Tsieinëeg, Rwseg, Corëeg, Eidaleg a Ffrangeg 'Creole'. ▶ Ieithoedd brodorol ddim o reidrwydd yn ieithoedd dan fygythiad gan eu bod yn gymunedol, ond heb statws cyfreithiol ▶ Nod addysg ddwyieithog ydi paratoi disgyblion o gefndiroedd nad yw'n Saesneg i fedru manteisio ar gyfleoedd drwy gyfrwng y Saesneg


Wrth wraidd y diffiniad newydd o'r term trawsieithu roedd pryder bod plant o gefndiroedd nad oedd yn Saesneg yn yr UD yn profi anhawster wrth gyfleu eu hunain yn Saesneg yn unig am nad oeddent yn cael gwneud defnydd o'u iaith arall/gryfaf. Ystyriwyd nad oedd meddylfryd monolithig uniaith yn adlewyrchiad teg o brofiad hyblyg ieithyddol y siaradwr dwy- ac amlieithog. Heriwyd hefyd seiliau damcaniaethol caffael

iaith gan honni mai un system gyfathrebol sydd, a bod honno, i siaradwyr dwy- ac amlieithog, yn cynnwys elfennau o fwy nag un 'iaith'. Tra bod García ei hun yn cydnabod bod yna le a phwrpas i ddatblygu sgiliau iaith safonol yn yr ysgol, mae hi hefyd yn grediniol bod rhaid deall, cydnabod a derbyn ymddygiad cyfathrebol arferol siaradwyr dwy- ac amlieithog os am roi'r cyfle gorau i bob plentyn lwyddo.

Rhesymeg diffiniad estynedig trawsieithu:

- ▶ Un system 'gyfathrebol' yw iaith.
- ▶ Cynnyrch cymdeithasegol yw 'iaith'.
- ▶ Mae siaradwyr dwy-/amlieithog yn defnyddio eu system gyfathrebol cyflawn i gyfleu neges yn union yr un modd ag y mae siaradwyr uniaith yn defnyddio eu system gyfathrebol cyflawn.
- ▶ Arweinia hyn at gyfathrebu dwyieithog/amlieithog ymysg siaradwyr sydd â systemau cyfathrebol sy'n cynnwys elfennau o fwy nag un iaith.
- ▶ Bydd mynnu ar gyfathrebu uniaith yn unig mewn unrhyw sefyllfa yn arwain at ddiffyg cyfathrebu, a bydd hyn, yn ei dro, yn amharu ar hyder a pharodrwydd plentyn i siarad.
- ▶ Dylid, felly, caniatáu siaradwyr dwyieithog i ddefnyddio eu repertoire cyflawn o iaith wrth gyfathrebu os am eu galluogi i gyfleu negeseuon/dangos eu dealltwriaeth yn llawn.

Mae nifer o ymchwilwyr yn anghytuno gyda'r syniad bod dwy iaith y siaradwr dwyieithog wedi eu 'huno' fel un system gyfathrebol, ac mae nifer o athrawon yn bryderus caniatáu i blant gyfuno ieithoedd mewn sefyllfa addysgol ffurfiol (Siôn, 2021; Lewis, Jones & Baker, 2012). Fel man canol, awgryma rhai, er bod ffiniau ieithoedd yn amwys a mympwyol, gall siaradwyr adnabod y gwahaniaeth rhwng un 'iaith' a'r llall ac felly mae'n bwysig sicrhau bod plant, waeth pa mor gryf yw eu gafael ar un iaith neu'r llall, yn gallu adnabod pryd a lle i ddefnyddio un iaith neu gyfuniad o'r ddwy (e.e. Cummins, 2017).



Cyfnewid cod vs. Trawsieithu

Mae nifer o'r farn bod trawsieithu, yn ystyr ehangach y term (gweler Diffiniad 2 uchod), yn cyfeirio at yr hyn mae eraill yn ei gydnabod fel cyfnewid cod.

Bocs Gwybodaeth 7: Cyfnewid Cod



cymysgu geiriau ac/neu ramadeg o dddwy iaith o fewn yr un sgwrs neu frawddeg



Thomas & Webb-Davies (2017), tud. 48

Yn ei hanfod, mae cyfnewid cod yn cael ei ystyried fel ymddygiad sosio-ieithyddol, tra bod trawsieithu yn cael ei weld fel ymddygiad sosio-wybyddol (Singleton & Flynn, 2021).


Mae tuedd unigolyn tuag at ystyried yr ymddygiad o ddefnyddio dwy iaith o fewn yr un ymadrodd fel cyfnewid cod neu drawsieithu yn dibynnu ar ei safbwynt damcaniaethol ynghylch sut mae'r ymennydd dwyieithog yn storio iaith.

Os ydi rhywun yn ystyried brawddeg fel Dw i'n **bored** yn gyfnewid cod, mae'n debyg bod yr unigolyn yna yn ystyried bod y Gymraeg wedi benthyg gair o'r


Saesneg – wedi symud rhywbeth o un lle i'r llall – ac felly yn ystyried bod y ddwy iaith ar wahân.

Os ydi rhywun yn ystyried brawddeg fel Dw i'n **bored** yn drawsieithu, mae'n debyg eu bod yn ystyried bod gan yr unigolyn un system gyfathrebol sy'n cynnwys popeth (iaith A a iaith B) gyda'i gilydd a bod yr unigolyn yn defnyddio gwybodaeth o'i 'repertoire' cyfan i gyfleu yr ystyr y mae am ei gyfleu.

Cyfnewid côd: dwy system ar wahân



Trawsieithu (diffiniad 2): un system gyfathrebol



Fodd bynnag, os ydi rhywun yn cynhyrchu brawddeg fel Dw i'n **wishio** bo fi ddim yn **bored** mae petha' fymryn yn wahanol. Yma, mae'r siaradwr yn ymwybodol ei fod yn siarad iaith A (Cymraeg) ond ddim efo'r gair am ddymuno peidio teimlo mewn rhyw ffordd benodol yn iaith A. Yr hyn mae'r siaradwr yn ei wneud, felly, ydi benthyg ymadrodd geiriol o iaith B (Saesneg), ond yn addasu'r ymadrodd hwnnw i fod yn gydnaws â rheolau mynegiant iaith A (Cymraeg) drwy ychwanegu -io i'r ferf.

Pa un ai bod rhywun yn ystyried y defnydd o **wishio** fel enghraifft o gyfuno ieithoedd (cyfnewid côd) neu yn ffurf sydd wedi ei gynnwys ar ei ben ei hun o fewn un system gyfathrebol (trawsieithu), mae'n bwysig ystyried bod ymarfer o'r fath ddim ond yn effeithiol os ydi'r gwrandaŵr hefyd yn siarad y ddwy iaith.

Yn rhinwedd y Cwricwlwm i Gymru, mae'n bwysig cydnabod **pob** iaith y mae plentyn yn ei siarad, gan annog y plentyn i drafod ei ddefnydd ei hun o iaith, ac ystyried sut mae cyfleu gwahanol negeseuon mewn gwahanol ieithoedd, a sut mae nodweddion iaith yn newid yn ôl cyd-destun, ayb.

MAES DYSGU A PHROFIAD

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ↩

Canllawiau i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu o ran y pedwar diben.

- ▶ ...dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio ieithoedd er mwyn iddyn nhw fod yn effeithiol wrth ryngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth a meithrin perthynas ag eraill.
- ▶ Bydd y dysgu a phrofiad yn eu cefnogi i ddod yn ymwybodol o sut maen nhw'n defnyddio ystod o ieithoedd i fynegi eu hunain at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.
- ▶ Ar gyfer Cymraeg neu Saesneg, mae hyn yn golygu siarad ac ysgrifennu.

Cwricwlwm i Gymru

Crynodeb:

Beth ydy Trawsieithu?

- ▶ Mae maes ymchwil trawsieithu yn eang iawn. Mae diffinio be yn union ydi trawsieithu yn gymhleth.
- ▶ Mae trawsieithu yn arfer sydd yn digwydd yn naturiol mewn poblogaethau dwyieithog – yn ein rhyngweithiadau dydd-i-ddydd, ac ar lawr dosbarth.
- ▶ Gellid edrych ar drawsieithu fel ymarfer addysgol, ymddygiad cyfathrebol, adnodd cynorthwyl, ac/neu weithgaredd wybyddol.
- ▶ Mae nifer o wahanol gyfuniadau iaith yn nodweddiadol o drawsieithu, ond yr hyn sy'n gyffredin ar draws y cyfan yw bod trawsieithu yn rhoi cyfle i unigolion ehangu dealltwriaeth drwy'r broses o sgaffaldio ieithyddol.
- ▶ Pa un ai eich bod chi yn saff eich bod yn cynllunio ymarfer trawsieithu ai peidio, mae cynllunio gwers neu ymarfer yn fwiadus er mwyn amrywio (i) iaith y mewnbwn,(ii) iaith y drafodaeth ac (iii) iaith yr allbwn fel bo'r angen am fod yn fanteisiol i'r dysgwr.
- ▶ Mae adnabod be mae'r llyfryddiaeth yn ei ddiffinio fel trawsieithu yn bwysig er mwyn gallu dysgu o'r ymchwil sydd yn cael ei chynnal yn y maes ac er mwyn elwa o unrhyw werthusiadau sy'n cael eu cynnal ar ymarferion tebyg i'r hyn sydd yn digwydd yn eich dosbarthiadau chi.



Pam trawsieithu?



The importance of developing the minority language is at the heart of translanguaging.

Cenoz & Gorter, 2021, tud. 6

Bilingual education for the empowerment of a minority language must protect a space for the minoritized language, while at the same time creating a bilingual space in which the minority language (Welsh) can interact with the majority language (English).


Jones 2017, tud. 208



Fel gyda nifer o ddulliau addysgol eraill, mae yna heriau wrth ystyried sut, pam a phryd i ddefnyddio/annog/ganiatáu trawsieithu'n effeithiol yn y dosbarth. Ond mae yna hefyd fanteision amlwg ynghlwm â'r dull.

Dylid cydnabod ac ystyried y manteision a'r heriau ochr-yn-ochr wrth lunio strategaeth/dull addysgol.

Manteision	Heriau
<ul style="list-style-type: none"> ▶ Mae trawsieithu'n galluogi plentyn i wneud defnydd o'i iaith gryfaf i hyrwyddo datblygiad yr iaith wannaf, a thrwy hynny yn cyfoethogi dealltwriaeth ac yn gallu cyfrannu at well hyfedredd yn y ddwy iaith. ▶ Mae trawsieithu yn datblygu sgiliau metaieithyddol, sgiliau ymwybyddiaeth morffolegol (Leonet, Cenoz & Gorter, 2020), a geirfa (Galante, 2020). ▶ Mae trawsieithu hefyd yn gallu hybu agwedd gadarnhaol tuag at ieithoedd lleiafrifol (Moriarty, 2017) ▶ Mae Baker (2003) yn honni bod trawsieithu'n cynnig dealltwriaeth ddyfnach o'r pwnc nag mewn cyd-destun uniaith ble mae modd i ddisgyblion ysgrifennu ynglŷn â thestun heb ei lawn ddeall, gan ei fod yn hanfodol prosesu'r wybodaeth er mwyn ei gyflwyno mewn iaith arall. ▶ Honnir hefyd bod trawsieithu'n gymorth i ddatblygu cyfathrebu llafar a llythrennedd yn yr iaith wannach (Lewis, Jones & Baker, 2012) a'i fod yn fodd i integreiddio siaradwyr L1 ac L2. ▶ Mae'n cynnig cyfle i rieni uniaith drafod a chyfrannu at waith ysgol eu plant er bod y gwaith hwnnw'n digwydd mewn iaith nad ydynt yn ei deall, gan fod trawsieithu'n arwain at brosesu a chyfathrebu gwybodaeth rhwng ieithoedd (weithiau, drwy gymorth cyfryngu) (Baker & Wright, 2021). ▶ Gall trawsieithu weithio'n dda yng Nghymru yn arbennig mewn cyd-destunau ble mae myfyrwyr â gafaél da ar eu dwy iaith. ▶ Mae trawsieithu yn golygu bod modd elwa o ystod ehangach o adnoddau gan bod modd defnyddio adnoddau o fwy nag un iaith. 	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Mae prinder gwybodaeth ar-lein yn Gymraeg yn golygu bod cyfyngiad ar nifer ac ystod y gwersi y gellir eu seilio ar fewnbwn cyfrwng Cymraeg, felly mae'n anodd sicrhau cydbwysedd cyson o ran y math o wybodaeth neu weithgaredd sydd yn cael eu cyflwyno neu eu cynnal yn un iaith neu'r llall. ▶ Mae tasg trawsieithu da yn ymofyn llawer o baratoi gofalus. ▶ Mae trawsieithu'n gwneud defnydd helaeth o Saesneg fel iaith mewnbwn ar gyfer testunau darllen a chyflwyno'u gwaith yn seiliedig arnynt yn Gymraeg. O ganlyniad, mae rhai athrawon yn amharod i'w ddefnyddio fel dull i gynnal ac amddiffyn defnydd o'r iaith leiafrifol, gan ofni bod defnydd o destunau Saesneg yn arwain at ddefnydd cynyddol o Saesneg yn y dosbarth (Jones, 2017; Siôn, 2021; Lewis, Jones & Baker, 2012). Fodd bynnag, prin ydi'r ddibyniaeth ar yr iaith gryfaf pan mae ffocws clir ar weithio yn yr iaith darged.



Trawsieithu a Cwricwlwm i Gymru

Er nad oes cyfeiriad ffurfiol at drawsieithu o fewn yr Egwyddorion Cynnydd sy'n bwydo Cwricwlwm i Gymru, nag/neu yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, mae cyfeiriad at drawsieithu yn y datganiadau manadol o'r hyn sy'n bwysig:

Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n dechrau defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn un iaith a'i mynegi yn fy ngeiriau fy hun mewn iaith arall.	Rwy'n gallu derbyn gwybodaeth mewn un iaith a'i haddasu at wahanol ddibenion mewn iaith arall.	Rwy'n gallu cymhwyso fy sgiliau trawsieithu er mwyn cefnogi dysgu ieithoedd cyfarwydd ac ieithoedd newydd.	Rwy'n gallu adnabod, yn annibynnol, gyfleoedd i roi fy sgiliau trawsieithu ar waith er mwyn cyfoethogi'r modd rwy'n dysgu a chyfathrebu.

At hynny, mae trawsieithu yn adnodd bwysig i wireddu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru, sef i greu:

- ▶ **dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau;**
- ▶ **dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; ac**
- ▶ **cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;**
- ▶ **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Rwy'n dechrau deall bod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein hieithoedd. Rwy'n gallu deall bod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd.	Rwy'n gallu adnabod a thrafod cysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng yr ieithoedd rwy'n eu siarad a'r rhai rwy'n eu dysgu. Rwy'n gallu deall sut a pham mae ieithoedd wedi esblygu, ac yn parhau i esblygu. Rwy'n gallu cyfathrebu mewn ystod cynyddol o ieithoedd.	Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am gysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng ieithoedd i gefnogi fy sgiliau dysgu ieithoedd. Trwy archwilio proses esblygiad iaith ac etymoleg, rwy'n gallu gwella fy nealltwriaeth o adeiladwaith iaith. Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o sut mae ieithoedd yn gweithio i gefnogi fy nysgu pellach mewn ieithoedd.	Rwy'n gallu cymhwyso'r hyn rwy'n ei wybod am gysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng ieithoedd i wella fy nghyfathrebu. Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am esblygiad iaith ac etymoleg i ddyfnhau fy nealltwriaeth o adeiladwaith iaith. Rwy'n gallu cyfathrebu, rhyngweithio a chyfryngu mewn sawl iaith, ac yn ystyried fy hun yn amlieithog.



In a very few lessons, teachers draw pupils' attention to the linguistic origin of technical words and ask them to explain the link between the English and Welsh terms. This practice has a positive effect on pupils' grasp of subject terms in Welsh and English.



Estyn, 2014, tud. 16

Un iaith yn cyfoethogi'r llall

Nid yw'r cysyniad o alluogi'r defnydd o'r L1 mewn dosbarth L2 yn un newydd. Ceir enghreifftiau lu o sefyllfaoedd ble mae defnydd o'r L1 mewn dosbarth L2 yn cyfoethogi'r addysgu a dysgu. Mae'n deg nodi bod y rhan helaeth o'r ymchwil ble cyfeirir at y 'dosbarth L2' yn cyfeirio at sefyllfa dysgu iaith fel pwnc mewn cyd-destun amlieithog yn hytrach nag at sefyllfa ble mae dysgu iaith a derbyn cynnwys yr addysg yn digwydd yn yr L2,

fel sydd yn digwydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yma yng Nghymru. Fodd bynnag, gan fod nifer helaeth o ddisgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyd a lled Cymru yn caffael y Gymraeg yn yr ysgol ac nid yn y cartref, ac yn caffael gwybodaeth addysgol yn bennaf drwy'r Gymraeg hefyd, mae'n bwysig deall rôl cynorthwyol posib yr L1, yn enwedig yn ystod Cyfnod Allweddol 2, wrth i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn yr L2.

Isod, ceir disgrifiad bras o rai dulliau addysgu ble bo'r L1 wedi ei gwahardd neu'i chaniatáu yn y dosbarth L2, gan hefyd fanylu rhywfaint ar anfanteision pob dull (gweler, e.e. Baker & Wright, 2021 a Cummins, 2007 am drosolwg):



L1 wedi ei gwahardd

	Manteision	Anfanteision
Clyweithiol	Dull sy'n seiliedig ar feddylfryd ymddygiadaeth (behaviourism). Mae'n annog ailadrodd cyson o ddialog er mwyn dysgu patrymau ar gof gan ddefnyddio atgyfnerthiad cadarnhaol (positive reinforcement) ar gyfer pob ymateb cywir a chynnig ymarferion drilio ar gyfer y patrymau angenrheidiol oddi mewn i'r ddialog. Mae'r dull yn un y gellid ei gynnal ar lefel dosbarth cyfan. Mae'n annog defnydd o'r L2 ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu a chyfoethogi ynganu drwy foddelu ymddygiad yr athro.	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Mae'r dull yn athro-ganolog nid disgybl-ganolog ac yn canolbwyntio ar ddatblygu ymddygiad yn hytrach na ffocysu ar y gystrawen ac ar ystyr a ffurf geiriau. ▶ Gall y dysgwr ymddangos yn anhyblyg a mecanyddol o ran ei rhuglder ieithyddol, er yn gallu ymddangos i fod â lefelau uchel o hyfedredd (proficiency). ▶ Mae'r dysgwr yn gallu bod yn lled-oddefol yn y broses ac nid oes modd addasu'r dull yn ôl lefel cynnydd gwahanol unigolion. ▶ Mae'n anodd creu cysylltiadau rhwng yr iaith darged a'r L1 fel bod modd adnabod sut i gyfleu rhai cysyniadau sy'n cael eu cyflwyno mewn ffyrdd cwbl wahanol yn y naill iaith a'r llall.
Cysylltiadau uniongyrchol	Canfod iaith drwy gyflwyniadau gweledol (e.e. lluniau) ac ystumol (e.e. ystumiau corfforol i). Canfod ystyr gair o'i gyd-destun a chanfod rheol iaith drostynt eu hunain drwy ddadansoddi brawddegau ac ymarferion pwrpasol (e.e. archebu bwyd mewn bwyty). Gellid ei gynnal ar lefel dosbarth cyfan. Mae tasgau wedi eu gosod o fewn cyd-destunau go iawn, ac yn darparu ymarferion sy'n hwyliog i'r dysgwr.	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Mae'r dull hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar yr iaith lafar ac felly nid yw darllen, ysgrifennu a gramadeg yn derbyn sylw digonol. ▶ Mae'n anodd creu cysylltiadau rhwng yr iaith darged a'r L1 fel bod modd adnabod sut i gyfleu rhai cysyniadau sy'n cael eu cyflwyno mewn ffyrdd cwbl wahanol yn y naill iaith a'r llall. ▶ Nid oes modd cynnal y dull ar lefel dosbarth gan bod angen addasu'r cynnwys yn ôl cynnydd yr unigolyn.
Addysgeg iaith gyfathrebol	Yma mae'r pwyslais ar gyfathrebu naturiol – adnabod y cyd-destunau a'r math o sgysiau y mae'r disgybl yn debygol o fod angen eu cynnal allan yn y byd go iawn. Mae'r ffocws ar ddysgu i gyfathrebu trwy rhyngweithio gydag eraill ac yn gyfle i ddisgyblion ymestyn yr hyn maen nhw'n ei ddysgu yn yr ysgol i'r cyd-destun cymdeithasol tu hwnt i'r ysgol.	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Mwy o bwyslais ar rhuglder na chywirdeb – angen cydbwysedd o'r ddau. ▶ Diffiniad o 'gyfathrebu clir' yn amwys – nid yw cyfathrebu'n glir yn y dosbarth gyda'r athro o reidrwydd yn golygu bod y disgybl yn medru cyfathrebu'n glir yn y gymuned.

L1 yn cael ei chaniatáu

	Manteision	Anfanteision
Dull naturiol (Krashen & Terrall, 1983)	Caniatáu ymatebion L1 i ymholiadau gan yr athro yn yr L2 nes bod y disgybl ddigon hyderus i ymateb yn yr L2. Mae seicoleg y dysgwr (cymhelliant; emosiwn) yn ganolog i'r daith addysgol.	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Drwy osod polisi ymateb yn yr L1 gall hyn arwain at greu arferiad o ymateb yn yr L1 ymysg disgyblion. ▶ Er bod disgwyl i ddisgyblion wneud defnydd cynyddol o'r L2 wrth i'w sgiliau ddatblygu, mae newid arfer ieithyddol yn her os ydi'r arfer o ymateb yn yr L1 wedi ei wreiddio.
Cyfieithu-gramadeg	Dull hynafol o addysgu iaith newydd yn seiliedig ar y dull o addysgu Lladin. Mae'r dysgwr yn cyfieithu testun o'i iaith gyntaf i'r iaith newydd. Gellir ei ddefnyddio ar lefel dosbarth a gellir ei ddefnyddio mewn dosbarthiadau gallu cymysg. Mae caniatáu'r defnydd o'r L1 yn gymorth wrth ddeall cysyniadau cymhleth ac mae'r ffocws ar ffurf yr iaith yn cyfrannu at gysondeb ac eglurdeb.	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Ffocws ar ddarllen ac ysgrifennu yn unig. ▶ Ffocws ar ffurf y frawddeg ac nid ar ystyr. ▶ Mae'r dysgwr yn gwbl oddefol yn y broses.
New Concurrent Approach (Jacobson & Faltis, 1990)	Dull addysgu dwyieithog sy'n defnyddio'r cysyniad o gyfnewid cod yn fwriadus er mwyn datblygu sgiliau yn yr iaith darged. Mae'r dull yn cydnabod y defnydd o gyfnewid cod yn y gymuned ac yn manteisio ar y defnydd naturiol o gyfuno'r ieithoedd er mwyn cyflwyno dysgwyr i'r iaith.	<ul style="list-style-type: none"> ▶ Nifer o'r farn bod cyfnewid cod yn arfer gwael sy'n annog diogi ieithyddol. ▶ Gall arwain at ddiffyg dealltwriaeth, yn enwedig pan nad yw'r naill iaith na'r llall wedi datblygu'n ddigonol ▶ Os ydi'r cyfnewid yn digwydd mewn un cyfeiriad yn unig (e.e. benthgymadroddion a geirfa o un iaith i'r llall bob amser) gall hyn arwain at ymdeimlad bod un iaith yn bwysicach, uwchraddol, 'gwell' ayb. na'r llall.

Mae i bob un o'r rhain ei heriau, boed hynny'n gwahardd yr L1 yn gyfan gwbl o'r dosbarth neu'n cofleidio ei defnydd yn gyfochrog â'r iaith darged. Yr hyn sy'n bwysig, felly, wrth ddatblygu strategaethau trawsieithu yn y dosbarth ydi sicrhau:

- ▶ eich bod yn adnabod cyd-destun ieithyddol cyfredol yr ardal, yr ysgol, a'r disgyblion unigol o fewn eich dosbarth;
- ▶ eich bod yn realistig o ran cyraeddiadau posib gwahanol ddisgyblion o ystyried eu profiadau ieithyddol;
- ▶ eich bod wedi adnabod nodau ac amcanion pendant i'r wers ac wedi ystyried os mai ffocws ar rhuglder (hyder cyfathrebol), hyfedredd (sgiliau iaith) neu ffocws ar y ddau sydd ei angen; a
- ▶ eich bod wedi ystyried y heriau i wireddu'r nodau hynny os yn gwahardd neu'n cofleidio'r defnydd o ieithoedd tu hwnt i'r iaith darged.

Mae'n bwysig ystyried pa ddiffiniad o drawsieithu sy'n gweddu yn eich cyd-destun chi. Os yw'r nod yn un gwarchod iaith, yna mae'n bwysig ystyried y diffiniad cyntaf. Os mai cynyddu hyder yw'r nod a chynnal cyfathrebiad effeithiol ar draws grŵp o siaradwyr, yn enwedig mewn cyd-destun amlieithog, yna mae'n briodol ystyried nodweddion yr ail ddiffiniad a'r cysyniad o gyfryngu.

...in contexts where developing proficiency in an additional language is the aim, even a necessity, curricular objectives in relation to the target language will need to be set. Questions arise then about how this may be achieved if translanguaging strategies, in their new, broad sense, are employed

Singleton & Flynn, 2021, tud. 6



Trawsieithu a sgaffaldio



Scaffolding is actually like a bridge used to build upon what students already know to arrive at something they do not know

Benson, 1997, tud. 126

Scaffolding as a metaphor in teaching and learning describes a system of temporary guidance offered to the learner by the teacher, jointly co-constructed, and then removed when the learner no longer needs it

Boblett, 2012, tud. 1

Effective teaching involves gauging what learners already know about a subject and finding ways to build on that knowledge

Gollub et al., 2002, quoted in Cenoz & Gorter, 2021, tud. 20


It is obvious that extended exposure to the target language(s) is necessary, but there is also a real need to build on what students already know...Students link new Information to old Information and pedagogical translanguaging aims at reinforcing that Process

Cenoz & Gorter, 2021, tud. 2



Yr hyn y mae strategaethau trawsieithu yn ei wneud ydi galluogi disgyblion i ddefnyddio gwybodaeth mewn iaith sydd efallai yn gryfach iddyn nhw (e.e. Saesneg) a thrin a thrafod y wybodaeth honno gyda'u cyfoedion ym mha bynnag ffordd sy'n gweithio iddyn nhw (trawsieithu dan arweiniad y disgybl), gyda'r nod o gynhyrchu darn o waith llafar neu ysgrifenedig yn Gymraeg.

O dan arweiniad athro, gellir annog y disgyblion i drosi termau, diffiniadau, ayb. er mwyn eu cynorthwyo i fedru cynhyrchu'r allbwn yn Gymraeg. Gellid felly gosod yr elfennau hynny o drawsieithu yn gadarn o fewn safbwynt damcaniaethol Vygotsky a'r Parth Datblygiad Procsimol - 'Zone of Proximal Development'.



Bocs Gwybodaeth 8 Parth Datblygiad Procsimol:



The distance between a child's actual developmental level, namely his ability to solve problems independently, and his potential developmental level, namely that which he can achieve under adult guidance or through co-operation with more able peers

Spencer, Edwards, Prys & Thomas, 2004, tud. 78



Dyma yn fras yr hyn yr oedd gan Vygotsky (1978) dan sylw o fewn ei ddamcaniaeth sosio-ddiwylliannol ('sociocultural theory'):



Er na ddefnyddiodd Vygotsky ei hun y term 'sgaffaldio', mae nifer wedi perthnasu'r hyn oedd ganddo mewn golwg o fewn y Parth Datblygiad Procsimol gyda'r cysyniad o sgaffaldio.

Gall y cymorth sydd ar gael er mwyn hybu datblygiad y plentyn fodoli mewn unrhyw ffordd – yn gymorth oedolion/plentyn mwy abl gyda thasg benodol; yn declynnau hybu dealltwriaeth; yn adnoddau pwrpasol; ayb.

Yn nghyd-destun trawsieithu, yr hyn mae'n ei olygu ydi bod plentyn, drwy fedru trafod y gwaith gyda rhywun arall – boed yr unigolyn hwnnw yn fwy abl neu beidio – yn gallu manteisio ar ei sgiliau parod mewn iaith arall er mwyn gallu cyflawni'r gwaith i'w lawn botensial.


Yn yr un modd, drwy alluogi disgybl i gael mynediad i'w iaith gryfaf o dro i dro, mae'r disgybl yn cael mynediad at wybodaeth barod 'prior knowledge' (gweler Cenoz a Gorter, 2021, tud. 19–20) – gwybodaeth sydd yn allweddol wrth ddatblygu yn ddeallusol. Mae dysgu iaith yn debyg iawn i ddysgu unrhyw beth arall: o ganfod darn newydd o wybodaeth, mae'r ymennydd yn ceisio perthnasu'r wybodaeth honno gyda gwybodaeth barod ac ehangu ar y wybodaeth, sef **cydweddu a chymhathu** gwybodaeth, yn ôl damcaniaeth Piaget. Wrth ddysgu ail iaith neu ddatblygu dwy iaith ar yr un pryd, gall

yr unigolyn dwyieithog elwa ar ei allu i gymharu a chyferbynnu – ar draws ei ddwy iaith – wahanol eiriau, ymadroddion, seiniau a strwythurau'r iaith a chanfod y gwahaniaethau o ran yr ystyr sydd ynghlwm â'r ffurfiau hynny. Drwy hynny, datblygir ymwybyddiaeth o hyd a lled ieithoedd – "what languages are, how they work, how they are used and can be learnt" (Paradowski, 2017, tud. 141) – sef yr hyn y cyfeirir ato yn y llyfryddiaeth fel sgiliau **meta-ieithyddol** – sgiliau sydd yn dylanwadu'n gryf ar lwyddiannau ieithyddol y plentyn maes o law (Carlisle, Beeman, Davis & Spharim, 1999).

Trawsieithu a hyblygrwydd gwybyddol

Mae llyfryddiaeth eang (e.g. Bialystok, 2020; Antoniou, 2018) yn honni bod symud rhwng ieithoedd a rheoli defnydd iaith yn arwain at hyblygrwydd gwybyddol.

Bocs Gwybodaeth 9: Manteision dwyieithrwydd: Sgiliau uwchwybyddol



- ▶ Mae dwy iaith y siaradwr dwyieithog wastad 'ymlaen' (wedi eu hysgogi'n niwrolegol) yn yr ymennydd.
- ▶ Mae ymennydd siaradwyr dwyieithog yn gorfod trefnu stôr o wybodaeth ieithyddol gymhleth gan wybod sut i sbarduno'r elfennau priodol wrth ddewis a dethol iaith darged.
- ▶ Wrth symud o un cyd-destun i'r llall, mae siaradwyr dwyieithog yn newid o un cyfrwng iaith i un arall yn gyson – gwrando ar un iaith, ymateb yn y llall; siarad un iaith un eiliad, un arall yr eiliad nesaf, ayb.
- ▶ Wrth siarad un iaith, rhaid i'r ymennydd dwyieithog sbarduno nodweddion priodol yr iaith honno ac atal elfennau tebyg o'r iaith arall rhag cael eu hysgogi.
- ▶ Arweinia hyn at fantais i siaradwyr dwyieithog o ran rheoli, dewis, dethol ac atal sylw, a hyblygrwydd gwybyddol (gweler – e.e. Thomas & Webb-Davies, 2017).



When bilinguals perform even the simplest production task, such as speaking the name of a familiar object in one of their two languages, there is evidence that both languages are active and influence performance



Kroll, Bobb, Misra & Guo (2008), tud. 416

At ei gilydd, felly, mae yna nifer o resymau pam bod trawsieithu'n fuddiol. Y cwestiwn nesaf i'w ystyried yw sut mae trawsieithu, a pha ddulliau y dylid eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau.

Crynodeb: Pam trawsieithu?

- ▶ Er mwyn i unrhyw strategaeth neu ymarfer trawsieithu weithio, dylid ystyried ffactorau cyd-destunol penodol yr unigolyn/grŵp o ddisgyblion/ysgol/ardal dan sylw, er mwyn adnabod pa ddull(iau) trawsieithu fyddai'n gweddu orau ac ar gyfer pa nod.
- ▶ Mae trawsieithu effeithiol yn datblygu sgiliau iaith, yn enwedig yn yr iaith wanaf, ac yn datblygu sgiliau gwybyddol wrth symud yn ôl ac ymlaen o un iaith i'r llall, sgiliau sydd, at ei gilydd, yn arwain at ddealltwriaeth ddyfnach a llawnach o'r pwnc.
- ▶ Mae trawsieithu wedi ei wreiddio o amgylch cysyniadau addysgol cryf, sef sgaffaldio a'r defnydd o wybodaeth flaenorol (prior knowledge).
- ▶ Mae trawsieithu hefyd yn fodd o integreiddio disgyblion L1 a L2 o wahanol gefndiroedd ieithyddol ac yn hwyluso cydweithredu rhwng y cartref a'r ysgol trwy ddefnydd hyblyg o'r ddwy iaith.



Sut mae trawsieithu?



The key idea is that there is no replacement of one language by another and that translanguaging is not a scaffold to shift from the minority to the majority language...The idea is to maximise the learner's linguistic resources as a multilingual when developing language and academic subjects




Cenoz & Gorter (2021), tud. 24



Gwahanol fodelau trawsieithu

Ceir gwahanol fodelau o drawsieithu, ond mae'r rhan helaeth o'r rhain yn disgyn yn dwt i mewn i un o ddau gategori: trawsieithu academaidd a thrawsieithu arferol. Fodd bynnag, er bod modd gosod y rhain mewn dau gategori, mae Cenoz a Gorter (2021) yn dadlau na ddylid ystyried y rhain fel categorïau annibynnol; yn hytrach,

dylid ystyried bod y naill a'r llall yn bodoli ar gontinwrm a bod modd gwneud defnydd o nodweddion trawsieithu arferol wrth gwblhau tasg trawsieithu academaidd, yn yr un modd ac y mae posib cyflwyno elfennau o drawsieithu academaidd i sefyllfa trawsieithu arferol:





Pedagogical translanguaging has been defined as 'planned by the teacher inside the classroom and can refer to the use of different languages for input and output or to other planned strategies based on the use of students' resources from the whole linguistic repertoire' (Cenoz, 2017, [p.] 194).

Dyfynnwyd o Cenoz & Gorter, 2021, tud. 17

Spontaneous translanguaging refers to the reality of bilingual usage in naturally occurring contexts where boundaries between languages are fluid and constantly shifting

Cenoz & Gorter, 2021, tud. 18




Prif wahaniaethau rhwng trawsieithu academiaidd a thrawsieithu arferol

Yn ei hanfod, mae trawsieithu academiaidd yn cyfateb i Ddiffiniad 1, 3 a 4 allan o'r tabl diffiniadau trawsieithu uchod tra bod trawsieithu arferol yn cyfateb i Ddiffiniad 2 a 4. Fodd bynnag, gan fod y naill a'r llall ar gontinwmm, ceir hyblygrwydd o ran pa nodweddion a sbardunir o fewn y naill a'r llall.


Trawsieithu Academiaidd	Trawsieithu Arferol
<ul style="list-style-type: none"> Mae trawsieithu academiaidd yn ymofyn cryn dipyn o gynllunio gofalus er mwyn sicrhau bod yr ieithoedd yn cael eu defnyddio i bwrpas. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae trawsieithu arferol yn gallu digwydd heb unrhyw gynllunio, ond mae posib ei gynnwys fel rhan o gynllun academiaidd wedi ei gynllunio o flaen llaw.
<ul style="list-style-type: none"> Mae trawsieithu academiaidd gan amlaf yn ymofyn presenoldeb athro, ond gall disgyblion sy'n rhugl yn y ddwy iaith gwblhau'r gwaith heb ymyriad athro. 	<ul style="list-style-type: none"> Nid oes angen presenoldeb yr athro ar gyfer trawsieithu arferol, er y bydd arweiniad athro yn ddefnyddiol i rai siaradwyr llai hyderus mewn rhan sefyllfaoedd.
<ul style="list-style-type: none"> Mae trawsieithu academiaidd mewn sefyllfa iaith leiafrifol yn rheoli defnydd o iaith er mwyn sicrhau ymarfer digonol o'r iaith wanaf. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae trawsieithu arferol yn galluogi siaradwr i wneud defnydd o'i holl ieithoedd heb orfod talu gormod o sylw at reolau o ran defnydd tra'n trafod y gwaith.

Trawsieithu dan reolaeth athro vs. trawsieithu dan reolaeth disgybl (Jones & Lewis, 2014)

	Model trawsieithu	Enghraifft
Dan reolaeth athro	<ul style="list-style-type: none"> Mae trawsieithu dan reolaeth yr athro yn golygu gweithgaredd wedi'i chynllunio yn fwriadol gan yr athro ar gyfer disgyblion dwyieithog o alluoedd amrywiol. Er mwyn addasu'r dasg ar gyfer galluoedd ieithyddol amrywiol, mae'r athro yn ceisio sgaffaldio'r weithgaredd drawsieithu, gan wneud hynny, er enghraifft, drwy ddewis deunydd darllen addas a darparu fframiau ysgrifennu. 	<p>Dosbarth Addysg Grefyddol Myfyrwyr 7 - 9 a 9 - 11 oedd oedd yn gymysg L1 ac L2 newydd. Testun y wers oedd gŵyl Hanukkah yr Iddewon. Roedd yr athrawes wedi paratoi taflen waith Saesneg.</p> <p>Y dasg oedd ysgrifennu ffeithiau yn seiliedig ar y daflen yn Gymraeg. Er mwyn gwneud hyn, rhoddodd yr athrawes gymorth i'r plant wrth ddarllen y daflen Saesneg, yna dangosodd fodelau o batrymau brawddegau ar gyfer y dasg ysgrifennu, gan ddarparu dulliau sgaffaldio ar gyfer y siaradwyr dwyieithog newydd.</p>
Dan reolaeth disgybl	<ul style="list-style-type: none"> Mae trawsieithu dan arweiniad disgyblion yn digwydd pan fo'r disgyblion yn siaradwyr cymwys ac maent yn dewis sut i drefnu eu sgiliau ieithyddol wrth dderbyn a chynhyrchu gwybodaeth. Fel y nododd Jones (2017), mae'r model yma yn mynd tu hwnt i ddiffiniad gwreiddiol Williams wrth gydnabod bod y disgyblion hefyd ar adegau yn penderfynu sut i gwblhau tasgau trawsieithu yn hytrach na dilyn cyfarwyddiadau'r athro. Mae'r gweithgareddau trawsieithu o dan reolaeth y disgyblion ac felly yn cael eu cwblhau yn fwy annibynnol. Mae ganddynt y rhyddid i ddewis sut i gwblhau'r dasg. Ceir enghraifft o'r model hwn ar waith gan Jones (2017). Fodd bynnag, rhybuddia Jones (2010) fod angen gofal wrth ystyried pa bryd a pham y dylid defnyddio gwahanol fodelau, gan ddadlau fod trawsieithu o dan reolaeth y disgyblion yn gweithio'n well ar gyfer disgyblion sy'n gytbwys ddwyieithog. Mewn sefyllfa lle mae un iaith gryn dipyn yn gryfach na'r llall gan y disgybl, mae peryg i drawsieithu dan reolaeth y disgybl arwain at gopïo gair am air heb fod y cynnwys wedi cael ei ddeall yn llawn (Jones, 2017). 	<p>Gwers hanes mewn dosbarth o blant 9-11 oed, L1 ac L2 oedd yn gytbwys ddwyieithog. Testun y wers oedd arferion bwyta pobl Oes y Cerrig, ac roedd y disgyblion wedi derbyn gwybodaeth Saesneg oddi ar y we, gan ddefnyddio sgiliau gwranddo a darllen er mwyn prosesu'r wybodaeth.</p> <p>Cofnodwyd y canlyniadau yn Gymraeg, gan ddefnyddio termau Cymraeg heb ddefnyddio geiriadur. Cyflwynwyd y canlyniadau i'r dosbarth yn Gymraeg.</p>



Gyda phob dull trawsieithu, mae'n bosib defnyddio ciwiau trawsieithu (Jones & Lewis, 2014) er mwyn sgaffaldio defnydd y plentyn o'i iaith wannaf er mwyn sicrhau bod y gweithgaredd yn cael ei gynnal yn yr iaith darged – e.e. drwy gynorthwyo'r plentyn i lunio ymatebion priodol yn y Gymraeg neu lunio templed o gystrawennau priodol. Gall hyn ddigwydd drwy law'r athro neu ddisgybl arall sydd â sgiliau cryfach yn yr iaith (gweler sgaffaldio a Bocs Gwybodaeth 8).



Bocs Gwybodaeth 10: Ciwiau trawsieithu

information about language use in the classroom provided by the teacher

Jones, 2017, tud. 208

Mae ciwiau trawsieithu yn cynnwys unrhyw gymorth y mae'r athro yn ei gynnig er mwyn sicrhau bod y disgybl yn gallu cyflawni gofynion y dasg a chynhyrchu'r allbwn yn yr iaith darged. Er enghraifft, gall llwyddiant tasg ysgrifenedig yn y Gymraeg ddibynnu ar ddealltwriaeth a defnydd priodol o dermau pynciol yn Gymraeg. Wrth greu taflen o dermau dwyieithog i gyd-fynd â'r dasg, mae'r athro yn creu ciwiau trawsieithu – rhoi help llaw i gynorthwyo'r drafodaeth ynghylch y dasg (datblygu dealltwriaeth o'r termau drwy gymharu

a chyferbynnu'r termau yn y ddwy iaith) ac i gynhyrchu'r gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg.

Mewn cyd-destun trawsieithu academaidd neu arferol o fewn y dosbarth, gall ciwiau trawsieithu ddigwydd drwy gynhyrchu deunyddiau parod, megis rhestr termau neu fframiau cystrawennol, neu ar lafar wrth i'r athro annog trosiad ieithyddol oddi wrth y drafodaeth Saesneg/dwyieithog ar gyfer cwblhau'r dasg yn Gymraeg heb wahardd y defnydd o'r Saesneg yn uniongyrchol:

...translanguaging needs cues to trigger language switching

Cenoz & Gorter, 2021, tud. 4

...the promotion of translanguaging could easily encourage pupils to focus more on the majority language (English). To carve a space for Welsh in bilingual classrooms, translanguaging cues are presented by the teacher to safeguard the use of the minority language (Welsh).

Jones, 2017 tud. 213

Trawsieithu ar gyfer dysgu ac addysgu vs. Trawsieithu heb fwriad addysgol penodol

O fewn y dosbarth, gellid canfod haen arall o drawsieithu, sef trawsieithu heb fwriad addysgol penodol (Basic Interpersonal Translanguaging – BIT) a thrawsieithu ar gyfer dysgu ac addysgu (Cognitive Academic Translanguaging – CAT) (Jones, 2017). Er bod y naill fath yn gorgyffwrdd â'r

llall yn naturiol o fewn y dosbarth, mae'n hanfodol bod athrawon yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion drawsieithu mewn cyd-destunau addysgol (mewn perthynas â darn o waith/gwybodaeth benodol) ac mewn cyd-destunau nad ydynt yn addysgol (mewn rhyngweithiadau personol).

Tips cynllunio

Yn ôl García, Ibarra Johnson a Seltzer (2017) mae tair haen i drawsieithu, sy'n cyfateb yn fras i agwedd, cynllunio a hyblygrwydd (gweler Cenoz & Gorter, 2021, tud. 11 a Singleton & Flynn, 2021, tud. 8-9):

Agwedd	Cynllunio	Hyblygrwydd
Cred gadarn bod lle i drawsieithu effeithiol yn y dosbarth – bod ymarferion ieithyddol arferol disgyblion dwyieithog yn adnodd y gellid manteision arnynt.	Cynllunio gweithgareddau, ymarferion, tasgau'n fwriadus i amrywio iaith y mewnbyn a'r allbwn ac i ganiatáu cyfleoedd i drafod yn ddwyieithog.	Parodrwydd i addasu cam wrth gam yn seiliedig ar anghenion y disgybl(ion) ac anghenion y dasg (e.e. yr iaith darged).

- ▶ Gellir paratoi a chynllunio gwersi gan ddefnyddio strategaeth trawsieithu mewn ffordd fanwl wedi'i mireinio ar gyfer canolbwyntio ar wahanol agweddau ar yr un dasg. Er enghraifft, mewn dosbarthiadau sydd â gwahanol oeddrannau yn gymysg mewn dosbarth o siaradwyr dwyieithog L1 ac L2, gellid hefyd amrywio tasgau'r wers, gan ganiatáu i'r plant hyn sydd â meistrolaeth well ar y ddwy iaith ehangu eu gweithgaredd, gan weithio'n annibynnol ac ymestyn eu gwaith (e.e. i gymharu Hanukkah â'r Nadolig yn achos yr enghraifft uchod), a hynny gan droi at ddeunyddiau ysgrifenedig pellach yn Saesneg cyn cofnodi eu canlyniadau ar y cyfrifiadur yn Gymraeg.
- ▶ Mae'r gallu hwn i addasu deunyddiau yn ôl gallu yn bwysig o ystyried yr amrywiaeth o gyd-destunau ieithyddol sy'n bodoli ledled Cymru. Gall y berthynas rhwng y Gymraeg fel iaith leiafrifol a'r Saesneg fel iaith fwyafrifol ddylanwadu'n ffafriol (drwy gyfoethogi sgiliau dwyieithog y plant) neu'n anffafriol (drwy lesteirio datblygiad yn y Gymraeg) ar allu ieithyddol y plant yn ogystal ag ar eu canfyddiadau ynglŷn â'r ddwy iaith, os nad yw'r cydbwysedd iaith yn briodol ar gyfer y cyd-destun. Byddai'n arfer dda, felly, ystyried y cydbwysedd rhwng dwy iaith yr unigolyn, rhwng y ddwy iaith o fewn y dosbarth ac o fewn y gymuned yn ehangach, er mwyn gallu cynllunio strategaethau trawsieithu addas.
- ▶ Mae darparu ciwiau trawsieithu (sgaffaldio) yn bwysig i annog defnydd o'r Gymraeg, i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei datblygu wrth gwblhau tasg, ac i roi digon o gyfleoedd i'r plant orfod ystyried drostynt eu hunain sut i gyfleu a mynegi eu hunain yn llawn yn yr iaith darged. Gall hyn gynnwys perthnasu ystyr gair a'i ffurf mewn un iaith a throsglwyddo'r wybodaeth honno i'r iaith arall (e.e. trafod ystyr canran – rhan o gant – yn Gymraeg wrth drafod ystyr y gair 'percent' yn Saesneg – Jones, 2017).
- ▶ Dylid ceisio sicrhau gofod ac amser digonol i'r Gymraeg, gan anelu at annog defnydd cyfartal neu amlach na'r Saesneg (Cenoz & Gorter, 2021) drwy ddefnyddio ciwiau trawsieithu.



Trawsieithu: Strategaethau Dosbarth

Mae'r set ganlynol o strategaethau dosbarth yn enghreifftio rhai o'r cysyniadau sydd wedi eu trafod yn y llyfr.

Cafodd y strategaethau dosbarth enghreifftiol hyn eu datblygu ar y cyd gydag athrawon dosbarth er mwyn darparu set o strategaethau dosbarth enghreifftiol i athrawon fedru eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer addasu a chreu eu hymarferion trawsieithu eu hunain gyda'u disgyblion.



1. Tasg Trawsieithu 1 Labelau

SGIL TRAWSIEITHU CAM CYNNYDD: 2/3
MAES DYSGU A PHROFIAD: Trawsgwricwlaidd

Pwrpas
Datblygu geirfa mewn mwy nag un iaith.
Ysgogi cysylltiadau rhwng yr ieithoedd


Canllawiau athro
1. Paratoi diagram gwag ar gyfer labelu
2. Rhoi'r termau wedi eu cymysgu i'r disgyblion mewn un iaith (e.e. Cymraeg neu Saesneg)

Canllawiau disgybl
1. Defnyddio geiriadur i chwilio am y termau yn yr iaith arall (cyfieithu)
2. Nodi'r term Cymraeg ar un ochr y label a'r Saesneg ar yr ochr arall i greu label dwyieithog
3. Labelu'r deigram

Beth sydd ei angen?

- Poster neu deigram gwag i labelu
- Blu tack
- Labeli post-it
- Pin ffelt
- Geiriadur dwyieithog
- Gliniadur/tailed

Ymestyn drwy drawsieithu
Ar ôl defnyddio'r geiriadur i gyfieithu'r termau, ewch ati ar y wê i chwilio am wybodaeth am swyddogaethau'r termau (e.e. Beth yw swyddogaeth 'deilen'?). Mae'n debyg bydd yr wybodaeth ar y wê yn Saesneg. Troswch yr wybodaeth i'r Gymraeg ar gyfer anodi'r deigram.



Cofiwch...
Mae'r dasg yma'n hyblyg iawn - gallwch addasu'r dasg ar gyfer sawl cyd-destun e.e. diagram y corff mewn gwyddoniaeth neu diagram y gylchred ddŵr mewn daearyddiaeth.
Mae darllen wybodaeth mewn un iaith, ei ddeall a'i fewnoli er mwyn ei ail-gynhyrchu mewn iaith arall yn sgil - bydd angen dipyn o ymarfer.

2. Tasg Trawsieithu 2 Gwyllo Fideo

SGIL TRAWSIEITHU CAM CYNNYDD: Pob cam cynnydd
MAES DYSGU A PHROFIAD: Trawsgwricwlaidd

Pwrpas
Derbyn wybodaeth o ffynhonnell mewn un iaith a thrafod y cynnwys drwy gyfrwng iaith arall.

Sbardun
Gwyllo fideo addysgol yn eich maes

Camau'r dasg
1. Gwyllo fideo addysgol mewn un iaith (e.e. Saesneg) yn y dosbarth.
2. Athro i stopio'r fideo yn achlysurol i ysgogi y disgyblion i ymateb i gynnwys y rhaglen yn Gymraeg.
3. Gofyn i'r disgyblion adnabod y wybodaeth bwysig sydd wedi cael ei gyflwyno.

Ymestyn
Gofynnwch i'r disgyblion fynegi eu barn a thrafod yr hyn a ddysgwyd o'r fideo (Saesneg) yn y Gymraeg.
Beth am wneud nodiadau pwynt bwled i grynhoi yr hyn a ddysgwyd o'r fideo?

Cofiwch...
Nid oes rhaid i'r sbardun fideo (y mewnbwn) fod yn Saesneg, gellir amrywio iaith y mewnbwn a'r allbwn o dro i dro, e.e. gwyllo/gwrandao ar fideo Cymraeg a thrafod/ymateb yn Saesneg

Gair o gyngor
Mae'n bwysig fod y dasg yn broses ddeinamig felly cofiwch ysgogi'r disgyblion i gymryd rhan yn y drafodaeth.

Sylwebaeth Teledu (ST)	According to the U.S. National Climate Assessment, our Earth is warming. Earth's average temperature has risen by 1.5 degrees Fahrenheit over the past century and is projected to rise another 2.11.5 °F over the next 100 years. Even small changes in the average temperature of the planet can translate into large and potentially dangerous shifts in climate and weather. [athro'n stopio'r fideo]
Athro (A)	Reit ta, pa dystiolaeth allwch chi adnabod yn fanna fod y byd yn cynhesu?
Disgybl (D)	Wel, y ffaith fod y tymheredd cyfartalog wedi codi yn y gorffennol a bod gwyddonwyr yn dweud y bydden nhw'n dal i godi yn y dyfodol.
Athro (A)	Cywir. A fe welwch hi fod hyd yn oed cynnydd bach mewn tymheredd yn golygu oblygiadau mawr. Dwi isio chi nodi rhai o'r sgil-fffeithiau o gynhesu byd-eang wrth barhau efo'r clip. [athro'n ail gychwyn y fideo, disgyblion yn cymryd nodiadau]
Sylwebaeth Teledu (ST)	Greenhouse gases are vital to making Earth a habitable planet, but the amounts of the gases in the atmosphere-gases such as carbon dioxide, methane, and nitrous oxide-have been accumulating. This accumulation of greenhouse gases is causing global average temperatures to rise...

3. Tasg Trawsieithu 3 Siaradwr Gwadd

SGIL TRAWSIEITHU CAM CYNNYDD: 2-3
MAES DYSGU A PHROFIAD: Trawsgwricwlaidd

Pwrpas
Derbyn sgwrs mewn un iaith (e.e. Saesneg) gan siaradwr gwadd a defnyddio'r wybodaeth i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg.

Sbardun
Ymweliad siaradwr gwadd

Camau'r dasg
GWRANDO
Cyflwyniad Saesneg gan siaradwr gwadd.
TRAFODAETH
Cyfle i'r disgyblion ofyn cwestiynau i'r siaradwr gwadd.
YSGRIFENNU
Ffurio darn o waith Cymraeg sydd yn crynhoi'r wybodaeth a gyflwynwyd gan y siaradwr gwadd.

Beth am gael y disgyblion i baratoi cwestiynau i'w holi o flaen llaw?

Cymorth ychwanegol
Beth am ddarparu taflen gyda dechreuadau brawddegau i brontio'r disgyblion wrth iddynt fynd ati i gwblhau'r dasg ysgrifenedig?

Enghraifft o wers
Ystyriwch ddefnyddio tasg o'r fath mewn wers goginio.
Mewnbwn- Siaradwr gwadd yn rhoi cyfarwyddiadau Saesneg ar sut i bobî bara.
Allbwn- Disgyblion yn mynd ati i ysgrifennu ryseit ar gyfer pobi bara yn Gymraeg.

Gair o gyngor
Gofynnwch i'r disgyblion gymryd nodiadau wrth wrando ar y siaradwr gwadd er mwyn paratoi ar gyfer y dasg ysgrifenedig.



Tasg Trawsieithu 4

Darllen a Deall

SGIL TRAWSIEITHU CAM CYNNYDD: 2/3/4
MAES DYSGU A PHROFIAD: Trawsfaes

Pwrpas

Darllen testun mewn un iaith, (e.e. Saesneg) a thrafod y cynnwys neu ymateb i gwestiynau yn dilyn y darllen mewn iaith arall (e.e. Cymraeg)

Canllawiau

1. Darllenwch y darn darllen mewn un iaith (gall hyn fod yn unrhyw ffynhonnell megis llyfr ffuglen, gwर्सlyfr, neu erthygl ffeithiol)
2. Ar ôl darllen y testun mewn un iaith e.e. Saesneg, ymatebwch iddo drwy gwestiynau dealltwriaeth neu drafodaeth mewn iaith arall.

Ymestyn...

Gallwch ddefnyddio'r dull darllen 'darllen cilyddol' lle mae disgyblion yn cyd-weithio mewn grwpiau bychan i wneud synnwyr o destun. Bydd hyn yn annog trawsieithu dan ofal y disgybl. Mae pob aelod yn cael rôl gwahanol fel isod:

Rhagfynegwr Rhagorol

cynnig syniadau am beth fydd yn ddigwydd a pham

Esboniwr Effeithiol

chwilota am atebion i gwestiynau'r grŵp am yr hyn a ddarllewyd e.e. geiriau newydd

Crynhöwr Cŵl

dad a phopeth at ei gilydd i weddill y grŵp. Symleiddio a chrynhoi.

Holwr Handi

Annog y grŵp i feddlw am gwestiynau am y testun. Pam? Pryd? Pwy? Sut? Beth os?

Syniad

Mae nifer o lyfrau poblogaidd bellach ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Beth am amrywio'r broses drwy newid iaith y darllen a iaith y cwestiynau o dro i dro, neu o bennod i bennod?

Tasg Trawsieithu 6

Cyflwyniad Llafar

SGIL TRAWSIEITHU CAM CYNNYDD: 2-5
MAES DYSGU A PHROFIAD: Trawsfaes/Trawsgwricwlaidd

Pwrpas

Cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol i gynulleidfa mewn un iaith ar ôl ymchwilio mewn iaith arall.

Canllawiau'r dasg

1. Meddylwch am bwnc diddorol i'w gyflwyno i gynulleidfa mewn un iaith e.e. Cymraeg
2. Ewch i ymchwilio gwahanol ffynhonnellau am wybodaeth megis y wê, llyfrau ffeithiol, unigolion. Mae'n bur debyg y bydd nifer o'r rhain mewn iaith arall e.e. Saesneg
3. Gwnewch nodiadau perthnasol o'ch gwaith ymchwil. Gall rhain fod yn Gymraeg neu'n Saesneg.
4. Cyflwynwch yr wybodaeth i'r gynulleidfa.

Top tips...

- Gwnewch nodiadau bras wrth ymchwilio er mwyn symleiddio a chrynhoi'r wybodaeth.
- Dewiswch wybodaeth berthnasol. Gwrthodwch wybodaeth amherthnasol.
- Defnyddiwch eiriadur termau dwyieithog i'ch helpu wrth gyfieithu termau
- Cynlluniwch eich cyflwyniad - ystyriwch greu is-adrannau/is-deitlau.
- Darllenwch eich gwaith yn uchel. Yd'ir brawddegau'n gwneud synnwyr i chi?

Mae trawsieithu yn sgil hollbwysig sydd angen cael ei ymarfer a'i ddatblygu - yn union fel chwarae piano neu sgiliau pêl droed

Sgîl trawsieithu

Yn aml iawn, (ond dim bob amser) os am wneud cyflwyniad pwnc-bendol e.e. cysawd yr haul neu ddeinosoriaid, bydd llawer o'r wybodaeth yn Saesneg, yn enwedig ar y wê. Ond yn hytrach na'i weld fel problem, edrychwch arno fel cyfle i drawsieithu. Wrth ddarllen mewn un iaith (mewnbyn) a chreu cyflwyniad mewn iaith arall (allbwn) bydd rhaid i'r disgyblion fewnoli, prosesu a deall y wybodaeth gyntaf er mwyn cynhyrchu rhywbeth newydd.

Tasg Trawsieithu 5

Dyfyniadau doeth

SGIL TRAWSIEITHU CAM CYNNYDD: 3/4
MAES DYSGU A PHROFIAD: DYNIAETHAU A IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

Pwrpas

Darllen testun mewn mwy nag un iaith, (e.e. Saesneg a Chymraeg) a thrafod y cynnwys neu ymateb i gwestiynau yn dilyn y darllen mewn un iaith ddewisol (e.e. Cymraeg)

Canllawiau

Trafodwch mewn un iaith mewn grŵp o dri:

- Ydi hyn yn wir mewn gwleidyddiaeth?
- Ydi hyn yn wir mewn cymdeithas?
- Ydi hyn yn wir mewn economi?
- Ydi hyn yn wir mewn crefydd neu grêd?
- Ydi hyn yn wir mewn addysg?
- Ydi hyn yn wir i mi?

Sbardun y dasg:

"If you judge people, you have no time to love them." "If you can't feed a hundred people, then feed just one."
Y Fam Teresa

Peidiwch â chyfrif bob dydd sy'n pasio am yr hyn rydych chi'n ei fedd, ond cyfrifwch ef am yr hyn rydych chi'n ei hau.
Robert Louis Stevenson

Proverbs 26:27
27 If a man digs a pit, he will fall into it; if a man rolls a stone, it will roll back on him.

Ioan 4: adnod 37 - Mae'r hen ddywediad yn wir: 'Mae un yn hau ac arall yn meddi.'

"Love life — engage in it, give it all you've got. Love it with a passion, because life truly does give back, many times over, what you put into it." — Maya Angelou

Sbardun y dasg:

KARMA
What goes around comes around. Keep your circle positive. Speak good words. Think good thoughts. Do good deeds.

WHAT GOES AROUND COMES AROUND

Definition of what goes around comes around
informal
—used to say that if someone treats other people badly he or she will eventually be treated badly by someone else
// You should not mistreat them. What goes around comes around.

Gwrandewch ar gân Justin Timberlake

Podcastiwrch

- Trefnwch eich barn ar ffurf podcast - Dewiswch 3 chyd-destun yn deillio o'r dyfyniadau doeth - addysg, cymdeithas, crefydd, economi, personol.

Tasg Trawsieithu 7

Map meddwl

SGIL TRAWSIEITHU CAM CYNNYDD: 2-5
MAES DYSGU A PHROFIAD: Trawsfaes/Trawsgwricwlaidd

Pwrpas

Derbyn gwybodaeth ar lafar mewn un iaith a'i grynhoi ar ffurf map meddwl yn yr iaith arall.

Canllawiau

1. Cyflwynwch wybodaeth ar lafar i'r dosbarth yn Saesneg gan ddefnyddio gwर्सlyfrau, erthyglau neu bapurau newydd.
2. Wrth i chi gyflwyno'r wybodaeth i'r dosbarth, anogwch y disgyblion i gymryd nodiadau.
3. Ar ôl y cyflwyniad, gofynnwch i'r disgyblion fynd ati i ffurfio map meddwl gydag ychydig am gynnwys y cyflwyniad yn y Gymraeg.

Cyngor

- Peidiwch â chyflwyno gormodedd o wybodaeth. Byddwch yn glir ac yn gryno.
- Gwnewch yn siwr fod geiriadur ar gael ar gyfer y disgyblion wrth iddynt grynhoi'r wybodaeth i'r Gymraeg.

Y Terminiadur Addysg

Beth am ofyn i'r disgyblion gyflwyno eu map meddwl ar lafar i'r dosbarth? Gall hyn fod yn gyfle iddynt ymarfer eu sgiliau llafar.

Syniad

Gellir dewis cynnal tasg o'r fath mewn parau. Beth am grwpio disgyblion iaith gyntaf Cymraeg gyda disgyblion iaith gyntaf Saesneg? Gall y ddau ddisgybl eiwa ar sgiliau ei gilydd.

Llyfryddiaeth

- Antoniou, M. (2019). *The advantages of bilingualism debate*. Annual Review of Linguistics, 5, 395-415.
- Baker, C. (2001). *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism (3ydd argraffiad)*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Baker, C. (2003). *Biliteracy and transliteracy in Wales: Language planning and the Welsh national curriculum*. Yn N. Hornberger (Gol.), Continua of Biliteracy. Clevedon: Multilingual Matters.
- Baker, C. (2006). *Foundations of bilingual education and bilingualism (4ydd argraffiad)*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Baker, C. (2011). *Foundations of bilingual education and bilingualism (5ed argraffiad)*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Baker, C. R. & Wright, W. (2021). *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism (7fed argraffiad)*. Bristol: Multilingual Matters.
- Benson, B. K. (1997). *Scaffolding*. English Journal, 86 (7), 126-127.
- Bialystok, E. (2020). *Null results in bilingualism research: What they tell us and what they don't*. Journal of Multilingual Theories and Practices, 1(1), 8-22. <https://doi.org/10.1558/jmtp.1710>
- Bomblet, N. (2012). *Scaffolding: Defining the Metaphor*. Teachers College Columbia University Working Papers in TESOL & Applied Linguistics, 12 (2), 1-16.
- Branchadell, A. (2011). *Minority Languages and Translation*. Yn Y. Gambier & L. Van Doorslaer (Gol.) Handbook of Translation Studies (tud. 97-101). Amsterdam: John Benjamins.
- British Educational Research Association, Royal Society of Arts (BERA-RSA) (2014) *Research and the teaching profession: Building the capacity for a self-improving education system*. <https://www.bera.ac.uk/project/research-and-teacher-education>
- Carlisle, J. F., Beeman, M., Davis, L. H., & Spharim, G. (1999). *Relationship of metalinguistic capabilities and reading achievement for children who are becoming bilingual*. Applied Psycholinguistics, 20 (4), 459-478.
- Cenoz, J., & Gorter, D. (2017). *Minority languages and sustainable translanguaging: threat or opportunity?*, Journal of Multilingual and Multicultural Development, 38 (10), 901-912.
- Cenoz, J. & Gorter, D. (2020). *Pedagogical translanguaging: An introduction*. System, 92. DOI: 10.1016/j.system.2020.102269
- Cenoz, J. & Gorter, D. (2021). *Pedagogical Translanguaging*. Cambridge Elements Language Teaching. Cambridge: CUP.
- Chaney, C. (1992). *Language Development, Metalinguistic Skills, and Print Awareness in 3-Year-Old Children*. Applied Psycholinguistics, 13 (4), 485-514.
- Cook, V. (2000). *Second Language Learning and Language Teaching*. Beijing: Foreign Language Teaching and Research Press and Edward Arnold Ltd.
- Cummins, J. (2017). *Teaching for transfer in multilingual school contexts*. Yn O. Garcia, A. Lin & S. May (Gol.), Bilingual Education: Encyclopedia of Language and Education (vol. 5) (pp.103-105). Berlin: Springer.
- Estyn (2014). *Linguistic progression and standards of Welsh in ten bilingual schools*. https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Linguistic_progression_and_standards_of_Welsh_in_ten_bilingual_schools_-_November_2014.pdf
- Galante, A. (2020). *Pedagogical translanguaging in a multilingual English program in Canada: Student and teacher perspectives of challenges*. System, 92. 102274. 10.1016/j.system.2020.102274.
- García, O. (2009). *Bilingual Education in the 21st Century: Global Perspective*. Malden/Oxford: Wiley/Blackwell.
- García, O. & Wei, L. (2014). *Translanguaging: Language, Bilingualism and Education*. London: Palgrave Macmillan.
- García, O., Ibarra Johnson, S. & Seltzer, K. (2017). *The Translanguaging Classroom*. Philadelphia, PA: Caslon.

- Jacobson, R. & Faltis, C. (ed.). (1990). *Language Distribution Issues in Bilingual Schooling*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Jones, M. D. (1972). *Termau iaith a llên*. Gwasg Gomer.
- Jones, B., & Lewis, G. (2014). *Language arrangements within bilingual education*. Yn E. M. Thomas & I. Mennen (Gol.), Advances in the study of bilingualism (tud. 143-172). Bristol: Multilingual Matters.
- Jones, B. (2017). *Translanguaging in Bilingual Schools in Wales*. Journal of Language, Identity and Education, 16 (4), tud. 199-215.
- Krashen, S. D. & Terrell, T. D. (1983). *The natural approach: Language acquisition in the classroom*. London, UK: Prentice Hall Europe.
- Kroll, J. F., Bobb, S. C., Misra, M., & Guo, T. (2008). *Language selection in bilingual speech: Evidence from inhibitory processes*. Acta Psychologica, 128 (3), 416-430.
- Lehto, J. E., Juujärvi, P., Kooistra, L. & Pulkkinen, L. (2003). *Dimensions of Executive Functioning: Evidence from Children*. British Journal of Developmental Psychology, 21, 59-80.
- Leonet, O., Cenoz, J., & Gorter, D. (2020). *Developing morphological awareness across languages: translanguaging pedagogies in third language acquisition*. Language Awareness, 29 (1), 41-59, DOI: 10.1080/09658416.2019.1688338
- Welsh Government/ Llywodraeth Cymru (2022). *Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir/ Curriculum for funded non-maintained nursery settings*. Caerdydd/Cardiff.
- Lewis, W. G., Jones, B., & Baker, C. R. (2012). *Translanguaging: Developing its conceptualisation and contextualisation*. Education Research and Evaluation, 18, 655-670.
- Lewis, W. G., Jones, B., Baker, C. (2013). *100 bilingual lessons: Distributing two languages in classrooms*. Yn C. Abello-Contesse, P. M. Chandler, M. D. Lopez-Jimenez, & R. Chacon-Beltran (Gol.) Bilingual and multilingual education in the 21st century (tud.107-135). Bristol: Multilingual Matters.
- Mohanty, A. K. (2019). *The Multilingual Reality: Living with Language*. Bristol: Multilingual Matters
- Moriarty, M. (2017). *Developing resources for translanguaging in minority language contexts: A case study of rapping in an Irish primary school*. Language, Culture and Curriculum, 30 (1), 76-90, DOI: 10.1080/07908318.2016.1230623
- Otheguy, R., García, O., & Reid, W. (2015). *Clarifying translanguaging and deconstructing named languages: A perspective from linguistics*. Applied Linguistics Review, 6, 281-307.
- Paradowski, M.B. (2017). *M/Other Tongues in Language Acquisition, Instruction, and Use*. University of Warsaw: Warsaw.
- Singleton, D. & Flynn, C. J. (2021). *Translanguaging: a pedagogical concept that went wandering*. International Multilingual Research Journal. DOI: 10.1080/19313152.2021.1985692.
- Siôn, C. G. (2021). *Trawsieithu yn y pynciau STEM: canfyddiadau athrawon y gwyddorau o drawsieithu fel gwyddor yn yr ystafell ddosbarth*. Traethawd MA.
- Spencer, Ll. H., Edwards, M., Prys, D. & Thomas, E. (2004). *Geiriadur Termau Seicoleg*. Prifysgol Bangor.
- Sun, L., Ruokamo, H., Siklander, P., Li, B. & Devlin, K. (2021). *Primary School Students' Perceptions of Scaffolding in Digital Game-Based Learning in Mathematics*. Learning, Culture & Social Interaction, 28, 1-11.
- Thomas, E. M. & Webb-Davies, P. (2017). *Agweddau ar Ddwyieithrwydd. Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol*.
- Thomas, E.M., Lloyd-Williams, S. W., Parry, N.M., ap Gruffudd, G.S., Parry, D., Williams, G.M., Jones, D., Hughes, S., Evans R.A., & Brychan, A. (2021). *Accessing Welsh during the Covid-19 pandemic: challenges and support for non-Welsh-speaking households*. Cardiff: Welsh Government.
- Vygotsky, L. S. (1978). *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press
- Williams, C. (1994). *Arfarniad o Ddulliau Dysgu ac Addysgu yng Nghyd-destun Addysg Uwchradd Ddwyieithog*. Traethawd Doethurol: Prifysgol Cymru Bangor.
- Williams, C. (2003). *Learning in two languages. Dysgu mewn dwy iaith*. Bangor: Prifysgol Cymru Bangor.



Trawsieithu yn y dosbarth

Cyfeirlyfr cyflym i addysgwyr

Enlli Môn Thomas, Cadi Gwen Siôn, Bryn Jones, Siân Lloyd-Williams, Morgan Dafydd,
Rhian Tomos, Lowri Mair Jones, Delyth Jones, Gwawr Maelor, Rhodri Evans a Gareth Caulfield